Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
70/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:
21/10/2021

# Addysg cyfrwng Cymraeg drwy drochi hwyr: mapio'r ddarpariaeth yng Nghymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80391-038-3

Addysg cyfrwng Cymraeg drwy drochi hwyr: mapio'r ddarpariaeth yng Nghymru

Awdur: Katharine Young

Adroddiad Ymchwil Llawn: Young, K. (2021) *Addysg cyfrwng Cymraeg drwy drochi hwyr: mapio'r ddarpariaeth yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 70/2021.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/addysg-cyfrwng-cymraeg-drwy-drochi-hwyr-mapior-ddarpariaeth-yng-nghymru

Lluniwyd yr adroddiad hwn fel rhan o interniaeth PhD pum mis a drefnwyd drwy Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) Cymru a Llywodraeth Cymru. Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ymchwil.Cymraeg@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr termau ....................................................................................................2
1. Cyflwyniad ....................................................................................................3
2. Methodoleg ....................................................................................................10
3. Canfyddiadau ....................................................................................................16
4. Casgliadau ac ystyriaethau at y dyfodol ....................................................................................................32
Llyfryddiaeth....................................................................................................37
Atodiad A – Canllaw holi swyddogion polisi Llywodraeth Cymru ....................................38
Atodiad B – Canllaw holi swyddogion awdurdodau lleol ....................................39
Atodiad C – Canllaw holi swyddogion consortia addysg rhanbarthol ....................................44
Atodiad Ch – Canllaw holi cynrychiolydd Estyn ....................................47

## Rhestr o dablau

Tabl 2.1: Meini prawf cynnwys/eithrio awdurdodau lleol yn yr astudiaeth ymchwil .............12

**Rhestr termau**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
| --- | --- |
| CA2 | Cyfnod Allweddol 2: Blynyddoedd 3-6, 7-11 oed |
| CA3 | Cyfnod Allweddol 3: Blynyddoedd 7-9, 11-14 oed |
| Consortiwm / Consortia Addysg Rhanbarthol | Corff sy'n darparu gwasanaethau addysg i gefnogi ysgolion mewn rhanbarth. Ceir pedwar consortiwm:<br>GwE (Gogledd Cymru);<br>ERW (Gorllewin a Chanolbarth Cymru);<br>CCD (Consortiwm Canolbarth y De), a<br>GCA (Gwasanaeth Cyflawni Addysg) / EAS De-ddwyrain Cymru. |
| CSCA(au) | Cynllun(iau) Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| Cyfnod Sylfaen | Cwricwlwm i blant 3 -7 oed |
| GGA | Grant Gwella Addysg |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymarfer mapio sydd yn archwilio addysg cyfrwng Cymraeg drwy drochi hwyr (ar gyfer hwyrddyfodiaid) mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru. Comisiynwyd Cangen Ymchwil y Gymraeg, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru i gynnal yr ymarfer mapio gan Is-adran y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y gwaith ymchwil rhwng Ionawr ac Ebrill 2021.

1.2 Nod addysg drochi yng Nghymru yw cyflwyno’r Gymraeg i ddysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref, er mwyn iddynt allu dilyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn addysg drochi ar draws Cymru, caiff dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref eu haddysgu yn yr un dosbarthiadau â dysgwyr sydd yn siarad Cymraeg gartref. Yn 2020, roedd 39% o ddysgwyr blwyddyn 1 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn siarad Cymraeg gartref, ac roedd 22% o ddysgwyr blwyddyn 1 mewn ysgolion dwyieithog yn siarad Cymraeg gartref.[1]

1.3 Pan fydd dysgwyr yn cyrraedd addysg drochi ar bwynt mynediad hwyrach na’r Cyfnod Sylfaen, maent yn ymgymryd â chyfnod dwys o gaffael iaith er mwyn gallu parhau â’u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Os bydd y ddarpariaeth ddwys hon wedi ei chyflwyno mewn uned benodedig, mae hyn yn golygu trosglwyddo yn ôl i ysgol (neu ffrwd) cyfrwng Cymraeg yn y brif ffrwd.[2] At ddibenion yr ymarfer mapio hwn defnyddiwyd y term ‘addysg drochi hwyr’ i gwmpasu amrywiaeth o fodelau a mathau o ddarpariaeth, sydd yn cael eu defnyddio ar wahanol bwyntiau mynediad yn y sector cynradd ac uwchradd. Nid yw’r adroddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng ‘addysg drochi canolig’, ‘addysg drochi hwyr’ ac ‘addysg drochi dwys’. Mae’r wybodaeth yn yr adran Cefndir isod yn cynnig gorolwg o sut mae gwahanol bwyntiau mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg (a dwyieithog) wedi bod ar waith ac wedi eu treialu yng Nghymru. Mae angen cadw hyn mewn cof wrth ystyried defnydd y term ‘addysg drochi hwyr’ yn yr adroddiad hwn.

---

[1] Gweler Data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion - Nifer y disgyblion yn ôl cyfrwng yr ysgol, StatsCymru a Data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion – Y Gymraeg, StatsCymru. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, caiff dysgwyr y Cyfnod Sylfaen eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a chaiff o leiaf 70% o gwricwlwm Cyfnod Allweddol 2 ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ysgolion dwyieithog yn cynnwys is-gategorïau gwahanol, yn dibynnu ar ganran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, a p’un a yw’r un ddarpariaeth yn cael ei chynnig drwy gyfrwng y Saesneg ai peidio Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg .

[2] Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y term ‘prif ffrwd’ i ddisgrifio lleoliad addysg ddwyieithog neu gyfrwng Cymraeg y mae’r hwyrddyfodwr yn dychwelyd neu yn mynd iddo ôl cwblhau’r cyfnod addysg drochi hwyr.

1.4 Cyfeirir at y sawl sy'n derbyn darpariaeth trochi hwyr fel 'hwyrddyfodiaid'. Caiff y term ei ddiffinio yn y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (2019: 8) fel 'plant (sy'n 7 oed neu drosodd) nad ydynt yn siarad Cymraeg ond sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl diwedd y cyfnod sylfaen.'

**Cefndir**

1.5 Mae cyfleoedd i ddysgwyr dderbyn addysg drochi drwy bwyntiau mynediad ar ôl dechrau addysg statudol wedi bodoli yng Nghymru dros nifer o ddegawdau. Datblygodd y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid yn wreiddiol mewn ardaloedd â chyfraddau uchel o siaradwyr Cymraeg, ar gyfer dysgwyr oedran cynradd. Diben sefydlu canolfannau iaith oedd cefnogi dysgwyr a oedd wedi symud i'r ardal i gaffael yr iaith mewn cyfnod byr, er mwyn iddynt allu dilyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy hynny sicrhau fod y Gymraeg yn parhau fel prif iaith cyfathrebu'r ysgolion cynradd yn yr ardaloedd dan sylw. Mae'r canolfannau hyn wedi parhau i ddatblygu eu darpariaeth ers iddynt gael eu sefydlu yn yr 1980au. Gwelwyd datblygiad pellach yn y 1990au wrth i brosiect trochi hwyr gael ei roi ar waith yn Ysgol Uwchradd Maes Garmon, Yr Wyddgrug, ar gyfer dysgwyr blwyddyn 7 nad oeddent wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol gynradd (Williams 2002). Yn 2004, agorodd Gwynedd y ganolfan iaith gyntaf ar gyfer hwyrddyfodiaid yn y sector uwchradd.

1.6 Gan adeiladu ymhellach ar y profiad oedd wedi datblygu yn sgil y ddarpariaeth hon, treialwyd cyfres o brosiectau peilot addysg drochi a dysgu iaith drwy ddulliau dwys yn ystod y cyfnod 2003-2008. Sefydlwyd y cynllun yn dilyn ymweliad Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd a'i dirprwyaeth, â Newfoundland a Labrador a New Brunswick yn 2001 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2001). Diben yr ymweliad oedd dysgu mwy am fodelau addysg drochi, a dysgu iaith drwy ddulliau dwys, oedd â'r nod o ddatblygu sgiliau iaith Ffrangeg dysgwyr. Yn dilyn yr ymweliad gofynnwyd i grŵp o arbenigwyr a oedd eisoes wedi ei sefydlu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i archwilio ymarferoldeb addasu'r Model Ffrangeg Craidd dwys ar gyfer peilot yng Nghymru, er mwyn cynnig ail bwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y blynyddoedd yn dilyn hynny bu'r prosiectau peilot a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (ar y pryd) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn treialu modelau a oedd yn golygu cyfnodau dwys o ddysgu'r Gymraeg ar ddiwedd CA2 a hefyd yn ystod blynyddoedd 3, 4 a 5 (Llywodraeth Cymru 2008; Williams 2008). Canfu Estyn mewn gwerthusiad o'r

prosiectau peilot (2006: 20) bod y nodweddion sy'n gyffredin i lwyddiant mewn rhaglenni trochi Cymraeg fel a ganlyn:

- 'athrawon rhugl sy'n fodelau da ar gyfer yr iaith darged ac sy'n gwneud dysgu yn hwyl;
- cyflymder ac amrywiaeth yn yr addysgu a'r dysgu;
- sicrhau parhad a chynnydd mewn dysgu yn Gymraeg ar draws y cwricwlwm ar lefel uwchradd;
- cymorth da wedi'i dargedu i ysgolion gan awdurdodau addysg lleol;
- cyswllt da rhwng pob un o'r asiantaethau; a
- chysylltiadau agos rhwng ysgolion a phartneriaid.'

1.7 Erbyn hyn mae darpariaeth addysg drochi hwyr ar gael mewn awdurdodau y tu hwnt i'r rhai yn y gorllewin h.y. mewn awdurdodau lleol ac ardaloedd gyda chanrannau is o siaradwyr Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnig ail bwynt mynediad i ddysgwyr sydd am symud o'r sector cyfrwng Saesneg i'r sector cyfrwng Cymraeg, ac i ddysgwyr sydd wedi symud i Gymru. Polisi iaith awdurdodau lleol unigol sydd yn pennu a oes rhaid i ddysgwyr fynychu'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr os ydynt am allu mynychu'r ysgol cyfrwng Cymraeg y maent yn dymuno mynd iddi.

1.8 Mae'r math o ddarpariaeth y mae awdurdodau lleol yn ei chynnig yn amrywio, o ran hyd y ddarpariaeth, oedran y dysgwyr sy'n derbyn y ddarpariaeth, a dwyster y rhaglen (Llywodraeth Cymru 2011). Ail-strwythurwyd cyllid oedd gynt yn gyfres o grantiau bach at ddibenion penodol, gan gynnwys un ar gyfer y Gymraeg, yn un grant sef y Grant Gwella Addysg (GGA) yn 2014-2015, er mwyn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol i symud arian ar draws y sector addysg yn eu sir fel bo angen. Nid oes ymchwil diweddar sydd yn ystyried effeithiau'r newidiadau hyn ar y ddarpariaeth addysg drochi hwyr.

1.9 Bwriad Llywodraeth Cymru yw ychwanegu at ei dealltwriaeth o sut mae addysg drochi hwyr yn cael ei darparu, a'r ffactorau sydd ynghlwm â hynny. Bwriedir i ganfyddiadau'r astudiaeth hon gyfrannu tuag at lywio trafodaethau Llywodraeth Cymru â'r awdurdodau lleol, wrth iddynt gynllunio'r ddarpariaeth yng ngoleuni'r cyd-destun polisi isod, ac ystyried opsiynau ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

### Cyd-destun polisi Llywodraeth Cymru

1.10 Nod Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth *Cymraeg 2050* yw sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn canol y ganrif (Llywodraeth Cymru 2017). Mae darparu pwyntiau mynediad hwyrach i addysg cyfrwng Cymraeg (hynny yw hwyrach na thrwy addysg drochi cynnar) yn rhan allweddol o wireddu'r nod hwn. Mae thema gyntaf y strategaeth ('Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg') yn nodi:

> 'Mae cyfle hefyd gan bob awdurdod lleol i ddatblygu pwyntiau mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, boed yn y sector cynradd neu uwchradd, trwy ddarpariaeth benodol i hwyrddyfodiaid. Mae nifer o fodelau eisoes ar waith ar draws Cymru. Mae angen i ni wella ein dealltwriaeth o'r modelau sy'n cynnig y ddarpariaeth fwyaf effeithiol, a chymryd camau i gynyddu'r ddarpariaeth hon dros amser.' (Llywodraeth Cymru 2017: 38).

1.11 Fel rhan o'r strategaeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei ymrwymiad i 'ystyried rôl canolfannau trochi ieithyddol hwyr wrth gefnogi'r sector cyfrwng Cymraeg ac a ddylai cymorth o'r fath fod ar gael ym mhob awdurdod lleol' (Llywodraeth Cymru 2020: 28). Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar waith sydd wedi ei gyflawni dros y degawdau diwethaf i geisio deall pa fodelau addysg drochi hwyr sydd ar waith ar draws Cymru, ynghyd â'r ffactorau a'r ystyriaethau sydd yn gysylltiedig â'r modelau hyn.

1.12 Ers 2013, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), sydd yn dangos sut y bydd yr awdurdod lleol yn gwella'r broses o gynllunio a gwella safonau addysg Gymraeg yn ei ardal. Yn 2019, daeth rheoliadau newydd ar gyfer CSCAau i rym.[3] Fel rhan o'r rheoliadau newydd, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ddarparu datganiad sy'n 'nodi trefniadau'r awdurdod lleol o ran ei ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sut a phryd y mae gwybodaeth yn cael ei rhoi i rieni a gwarcheidwaid' (Llywodraeth Cymru 2019: 8). Ers 2019, mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i adrodd ar eu darpariaeth, lle nad oedd dyletswydd arnynt i wneud hyn yn flaenorol.

[3] Mewn ymateb i bandemig COVID-19 diwygiwyd Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Daeth Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 ('Rheoliadau 2020') i rym ar 1 Rhagfyr 2020 gan wneud newidiadau sydd wedi arwain at symud dyddiad cychwyn y cylch CSCA nesaf o 1 Medi 2021 i flwyddyn yn ddiweddarach (i Medi 2022).

1.13 Mae ysgolion yng Nghymru yn gweithio tuag at wireddu Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022 ymlaen. Yn dilyn cyhoeddiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Gorffennaf 2021 bydd hawl gan ysgolion uwchradd i oedi cyflwyno'r cwricwlwm newydd hyd 2023. Mae'r cwricwlwm yn cynnig ffocws newydd ar ddysgu sydd yn cefnogi cynnydd pob dysgwr, gan rymuso ysgolion ac athrawon i gymryd perchnogaeth dros eu cwricwlwm eu hunain, o fewn fframwaith cenedlaethol. Bydd y pwyslais ar asesu sy'n cefnogi cynnydd ar hyd continwwm dysgu, yn hytrach nag ar ddeilliannau ar ddiwedd cyfnodau penodol. Mae'r cysyniad continwwm dysgu iaith yn sail i gynnydd yn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Bydd dysgwyr yn datblygu o fod ag ychydig neu ddim sgiliau a gwybodaeth iaith i fod yn fedrus yn yr ieithoedd maent yn eu dysgu. Ar gyfer y Gymraeg bydd angen i leoliadau ac ysgolion ystyried y disgrifiadau dysgu sydd fwyaf addas ar gyfer eu dysgwyr.

1.14 I gefnogi gweithrediad y CSCAau newydd, mae Llywodraeth Cymru am symleiddio'r categorïau ysgolion yn ôl eu darpariaeth o'r Gymraeg. Bydd awdurdodau lleol yn cael eu hannog, wrth iddynt ystyried pa gategori arfaethedig sy'n disgrifio orau yr ysgolion o fewn eu hardal, i adnabod cyfleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob categori ysgol. Mewn rhai achosion gallai hyn arwain at ysgol yn newid categori. Bydd datblygu'r ddarpariaeth addysg drochi ar gyfer pwyntiau mynediad hwyrach mewn ysgolion yn rhan allweddol o'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sgil cyflwyno'r categorïau iaith newydd, a'r bwriad i gyfran uwch o'r cwricwlwm gael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion dros amser (Llywodraeth Cymru 2017). Cynhaliwyd ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar ganllawiau anstatudol, *Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg,* rhwng 14 Rhagfyr 2020 a 26 Mawrth 2021. Disgwylir i'r canllawiau gael eu cyhoeddi yn ystod tymor yr hydref 2021.

### Nod ac amcanion yr ymchwil

1.15 Nod yr ymarfer mapio hwn oedd llunio darlun o'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr oedd yn bodoli mewn rhai awdurdodau lleol ar y pryd, a deall rhai o'r heriau a'r cyfleoedd i awdurdodau lleol ac ysgolion wrth gynnig y ddarpariaeth. Bwriedir i'r canfyddiadau ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

1.16 Amcanion yr ymchwil oedd archwilio:

- yr amgylchiadau a’r anghenion y mae modelau darparu gwahanol yn rhoi sylw iddynt;
- strwythur a chynnwys y modelau gwahanol (e.e. canolfannau iaith dynodedig, unedau, darpariaeth mewn ysgolion);
- y ddarpariaeth bresennol yng nghyd-destun sut mae’r ddarpariaeth wedi datblygu dros amser; a
- chynlluniau ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol.

Mae’r astudiaeth hefyd yn nodi rhai ystyriaethau ynghylch i ba raddau y mae’r mecanweithiau presennol yn caniatáu i effeithiolrwydd y modelau gael ei asesu.

**Meysydd ymchwil**

1.17 Yn y fanyleb ar gyfer yr ymarfer mapio amlinellwyd meysydd allweddol i’w harchwilio. Mae’r meysydd hyn yn cynnig strwythur ar gyfer adrodd ar y canfyddiadau.

*Heriau a chyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r modelau darparu gwahanol*

1.18 Mae hyn yn cwmpasu gallu’r awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion 'hwyrddyfodiaid' drwy'r ddarpariaeth, a'r ffactorau a allai fod yn hwyluso ac yn rhwystro hyn.

*Trefniadau presennol ar gyfer mesur deilliannau dysgwyr ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth a gynigir*

1.19 Mae hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth o'r mecanweithiau a'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol, consortia a chyrff eraill i (i) fesur deilliannau addysgol a ieithyddol dysgwyr, a (ii) asesu effeithiolrwydd y modelau amrywiol sydd ar waith.

1.20 Noder nad oedd o fewn sgôp yr ymchwil hwn i fesur effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg drochi hwyr.

**Cynnwys yr adroddiad**

1.21 Mae’r adroddiad wedi ei strwythuro fel a ganlyn. Mae Pennod 2 yn disgrifio’r fethodoleg ymchwil. Mae Pennod 3 yn cyflwyno canfyddiadau’r astudiaeth o ran mapio’r ddarpariaeth addysg drochi hwyr a geir mewn awdurdodau lleol gwahanol yng Nghymru, a chyflwynir yr hyn a ystyrir yn brif heriau a chyfleoedd sy’n

gysylltiedig â'r modelau darparu gwahanol. Mae'r bennod hon hefyd yn amlinellu i ba raddau y mae'r mecanweithiau presennol yn caniatáu i effeithiolrwydd y modelau darparu gael ei asesu. Mae Pennod 4 yn cyflwyno casgliadau'r ymchwil, ynghyd ag ystyriaethau ar gyfer blaenoriaethau ymchwil a llunio polisi yn y dyfodol.

## 2. Methodoleg

2.1 Casglwyd tystiolaeth ar gyfer yr astudiaeth drwy ymchwil pen desg a chyfweliadau lled-strwythuredig gyda chyfranogwyr. Ceir disgrifiad isod o’r dulliau a ddefnyddiwyd.

**Ymchwil pen desg**

2.2 Cwblhawyd yr ymchwil pen desg rhwng Ionawr ac Ebrill 2021. Roedd hyn yn cwmpasu archwilio a dadansoddi dogfennau polisi a data gweinyddol perthnasol (gan gynnwys CSCAau awdurdodau lleol ar gyfer y cyfnod 2017-2020), a chyhoeddiadau a llenyddiaeth i osod y gwaith yn ei gyd-destun polisi.

**Cyfweliadau**

2.3 Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng Ionawr a Mawrth 2021. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, swyddogion awdurdodau lleol, swyddogion o’r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol, ac Estyn. Cynhaliwyd pob cyfweliad dros feddalwedd fideo gynadledda Teams er mwyn cwrdd â gofynion cadw pellter cymdeithasol yn ystod pandemig COVID-19. Derbyniodd y cyfranogwyr (ag eithrio swyddogion Llywodraeth Cymru) hysbysiad preifatrwydd a gwybodaeth ategol am y prosiect, yn esbonio nod ac amcanion yr ymchwil, a’u cyfraniad hwy iddo. Nododd yr hysbysiad preifatrwydd bod cyfranogwyr yn cyfrannu i’r astudiaeth o’u gwirfodd, a chafodd pob cyfranogwr sicrwydd na fyddai modd eu hadnabod o’r dystiolaeth a gynigiwyd ganddynt.

2.4 Cynhaliwyd y cyfweliadau yn y Gymraeg neu’r Saesneg, yn unol â dewis iaith y cyfranogwyr. Parodd bob cyfweliad tua awr. Recordiwyd pob cyfweliad er mwyn hwyluso’r broses o gadw nodiadau manwl o’u cynnwys. Mae’r canllawiau holi a ddefnyddiwyd yn y cyfweliadau wedi eu cynnwys yn atodiadau’r adroddiad hwn.

2.5 Roedd y canllawiau holi yn cwmpasu’r meysydd canlynol:

- Cyllid ac adnoddau;
- Cludiant a hygyrchedd;
- Capasiti, a mecanweithiau i fynd i’r afael â’r cyflenwad/galw;
- Arbenigedd a hyfforddiant ymarferwyr;
- Cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth (cyn, yn ystod ac yn dilyn darpariaeth drochi hwyr);
- Cymorth parhaus i ddysgwyr ar ôl cwblhau cyfnod o drochi dwys;

- Integreiddio dysgwyr yn amgylchedd eu hysgol gartref, a’r goblygiadau i bolisïau iaith ysgolion (y defnydd o’r Gymraeg fel cyfrwng yr addysgu a’r dysgu ar draws y cwricwlwm).

2.6 Cynhaliwyd chwech o gyfweliadau gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru fel rhan o waith sgopio cychwynnol yr ymchwil. Defnyddiwyd cynnwys y cyfweliadau hynny i helpu i lunio canllawiau holi gydag awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol ac Estyn.

*Cyfweliadau gydag awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol ac Estyn*

2.7 Cynhaliwyd cyfweliadau gydag awdurdodau lleol yn seiliedig ar feini prawf cynnwys ac eithrio (gweler Tabl 2.1). Oherwydd amserlen dynn y prosiect, roedd hi’n bwysig bod y meini prawf yn adlewyrchu’r hyn oedd yn ymarferol bosibl o fewn yr amser oedd ar gael. Seiliwyd y meini prawf ar drafodaethau a chyfweliadau gyda swyddogion mewnol y llywodraeth a gwaith craffu ar CSCAau 2017-20 awdurdodau lleol. Roedd y meysydd ymchwil yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar y ddarpariaeth neu gynlluniau ar gyfer datblygu’r ddarpariaeth yn y dyfodol. Am y rheswm hwnnw, penderfynwyd cynnwys awdurdodau lleol sydd yn cynnig darpariaeth drochi hwyr, awdurdodau lle mae’r ddarpariaeth wedi newid yn lled ddiweddar, neu awdurdodau sydd yn cynllunio darpariaeth ar hyn o bryd. Penderfynwyd eithrio awdurdodau lleol nad ydynt wedi nodi datblygiadau o ran eu darpariaeth addysg drochi hwyr yn eu hadroddiadau cynnydd CSCA neu yn eu CSCAau 2017-2020. Penderfynwyd hefyd eithrio awdurdodau lleol nad ydynt yn cynnig darpariaeth addysg drochi hwyr ac heb gynlluniau i sefydlu darpariaeth. Tybiwyd na fyddai gan yr awdurdodau lleol hynny afael cadarn ar eu cynlluniau eto.

**Tabl 2.1: Meini prawf cynnwys/eithrio awdurdodau lleol yn yr astudiaeth ymchwil**

| Cynnwys | Eithrio |
|---|---|
| Awdurdodau lleol sydd yn treialu darpariaeth 'arloesol' h.y. yn ymateb i'r galw am ddarpariaeth drochi mewn modd gwahanol i ddarparu'n fewnol mewn ysgolion a chanolfannau dynodedig | Awdurdodau lleol nad ydynt:<br>• wedi nodi datblygiadau o ran eu darpariaeth addysg drochi hwyr yn eu hadroddiadau cynnydd CSCA neu yn eu CSCAau;<br>• yn cynnig darpariaeth ac heb nodi yn eu CSCAau nac yn eu trafodaethau gydag Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru eu bod â diddordeb mewn sefydlu darpariaeth |
| Awdurdodau lleol sydd wedi sefydlu darpariaeth yn ddiweddar h.y. ers gwerthusiad prosiectau peilot Bwrdd yr Iaith Gymraeg / Llywodraeth Cymru yn 2008 | |
| Awdurdodau lleol lle mae darpariaeth wedi'i hen-sefydlu | |
| Awdurdodau lleol sydd wedi gweld twf diweddar yn niferoedd y plant sy'n mynychu'r ddarpariaeth | |
| Awdurdodau lleol lle mae diddordeb gan y sir i ddatblygu'r ddarpariaeth yn eu CSCAau 10 mlynedd. | |
| Awdurdodau lleol lle mae darpariaeth drochi hwyr wedi lleihau neu wedi dod i ben yn ddiweddar | |

2.8 Adnabuwyd 14 o awdurdodau lleol drwy'r meini prawf uchod. Roedd y swyddogion a wahoddwyd i gyfweliad â swyddogaethau gwahanol yn yr awdurdodau lleol oherwydd bod strwythurau mewnol amrywiol ym mhob awdurdod. Roedd pob un o'r swyddogion yn ymwneud â'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr ar lefel strategol. Roedd 10 o'r awdurdodau lleol ar gael i gymryd rhan yn yr ymchwil yn yr amser a gafwyd i gwblhau'r prosiect.

2.9 Cafodd gwahoddiadau eu hanfon at swyddogion oedd yn brif bwynt cyswllt i Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn Addysg a'r CSCAau. Mewn rhai achosion, gwnaeth y swyddogion hynny gynnwys swyddogion eraill o'u sefydliad yn y cyfweliad yn ogystal, a gofynnodd rhai i eraill yn y sefydliad wneud y cyfweliad yn eu lle. Roedd nifer y swyddogion a gymerodd ran yn y cyfweliadau yn amrywio o un i bedwar.

2.10 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda swyddogion yn y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol (GwE; ERW, Consortiwm Canolbarth y De (CCD), a Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) De-ddwyrain Cymru, a chydag Estyn.

**Dadansoddi**

2.11 Yn dilyn y cyfweliadau, gwnaed nodiadau manwl ar eu cynnwys. Dadansoddwyd nodiadau manwl y gwaith maes dan benawdau oedd yn deillio o'r canllawiau holi. Oherwydd natur lled-strwythuredig y cyfweliadau, cododd meysydd ychwanegol yn sgil yr ymatebion hefyd. Amlygwyd y meysydd ychwanegol hynny wrth ddadansoddi'r nodiadau manwl o bob cyfweliad.

**Moeseg**

2.12 Cwblhawyd yr astudiaeth yn unol ag egwyddorion Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR). Cwblhawyd rhestr wirio moeseg ar ddechrau'r broses ymchwil, ac adolygwyd y rhestr yn ystod yr astudiaeth.

**Cyfyngiadau a heriau, ac ystyriaethau eraill mewn perthynas â'r fethodoleg**

2.13 Wrth ymdrin â chanfyddiadau'r ymchwil, rhaid ystyried y cyfyngiadau a'r heriau a oedd yn gysylltiedig â'r fethodoleg a fabwysiadwyd.

2.14 Nid yw'r ymarfer mapio yn cynnig darlun cyflawn o'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr yng Nghymru, oherwydd nid oedd modd cyfweld â phob awdurdod lleol. Nid yw sefyllfa a phrofiadau'r awdurdodau lleol nad ydynt yn meddu ar ddarpariaeth drochi hwyr wedi eu cynnwys. Ni ddylid cymryd yn ganiataol nad yw'r awdurdodau lleol hyn yn cynllunio i gynnig darpariaeth addysg drochi hwyr yn eu CSCAau 10 mlynedd nesaf, ac ni fu'n bosibl archwilio a oedd unrhyw resymau penodol pam nad ydynt wedi datblygu'r ddarpariaeth hyd yma. Mae'n bosibl y gallai'r awdurdodau hyn fod wedi cynnig safbwyntiau a fyddai wedi cyfoethogi'r gwaith ymchwil ymhellach.

2.15 Oherwydd cyfyngiadau amser, nid oedd yn bosibl cyfweld â phob un o'r 14 o awdurdodau lleol a wahoddwyd i gymryd rhan. Pe byddai mwy o awdurdodau lleol

wedi'u cynnwys yn yr ymchwil, byddai wedi bod yn bosibl cael darlun mwy cynhwysfawr o'r sefyllfa yng Nghymru.

2.16 Oherwydd gwahaniaethau yn strwythurau awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol, roedd amrywiaeth yn nheitlau swydd a chyfrifoldebau'r cyfranogwyr. Golyga hyn nad oedd gan bawb a gyfwelwyd yr un lefel o ymwneud â'r ddarpariaeth, ac mae'n bosibl y gallai hynny fod wedi dylanwadu ar eu gallu i ymdrin â phob maes i'r un lefel manylder, neu o'r un perspectif.

2.17 Roedd nifer y cyfranogwyr yn y cyfweliadau yn amrywio o un i bedwar. Mae angen bod yn ymwybodol felly nad cyfweliad un-i-un oedd pob un, ac y gallai hyn fod wedi effeithio ar ddeinameg y cyfweliad; er enghraifft, gallai'r cyfweliadau lle roedd mwy nag un yn bresennol fod wedi effeithio ar barodrwydd neu allu rhai i rannu gwybodaeth neu safbwyntiau, gan fod eraill hefyd yn bresennol.

**COVID-19**

2.18 Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng Ionawr a Mawrth 2021. Yn sgil pandemig COVID-19, roedd y byd addysg ynghanol cyfnod o addasu. Roedd yr angen i fod yn sensitif i amgylchiadau'r cyfranogwyr yn ystyriaeth allweddol yn ystod y prosiect ymchwil.

**Ymchwilio'n atblygol**

2.19 Ymarfer mapio oedd y prosiect ymchwil hwn, oedd â'r nod o gynyddu dealltwriaeth ynghylch sut mae darpariaeth addysg drochi hwyr yn cael ei chynnig mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, a rhai o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth iddynt gynnig y ddarpariaeth. Er mai canfyddiadau ffeithiol a gyflwynir yn yr astudiaeth gan fwyaf, mae elfennau o'r gwaith, fodd bynnag, yn fwy ansoddol eu natur.

2.20 Ychydig iawn o ymchwil ym maes addysg all fod yn rhydd o werthoedd yr ymchwilydd (Carr, 2000). Am y rheswm hwnnw, mae angen bod yn atblygol wrth gynnal gwaith ymchwil: heb geisio deall dylanwad yr ymchwilydd ar y broses ymchwilio ei hun, ni ellir cyflawni gwaith ymchwil moesegol (Holmes 2020). Rhoddwyd ystyriaeth felly i ddaliadau cymdeithasol yr ymchwilydd wrth gyflawni'r gwaith ymchwil, mewn ymgais i fod yn dryloyw ac yn onest am unrhyw dueddiadau posibl oedd yn ymwneud â'r ymchwil. Lluniwyd y datganiad safbwyntiol canlynol:

'Ar ôl symud i Gymru ym mlwyddyn 6, darparwyd addysg drochi hwyr i mi cyn i mi allu ymuno ag addysg cyfrwng Cymraeg y brif lif. Rwy'n cydnabod y gallai hyn

effeithio ar fy niddordeb yn y pwnc, ac ar fy mrwdfrydedd wrth fynd ati i gasglu'r data ar gyfer y prosiect.'

2.21 Gyda'r nod o sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei gynnal mewn modd di-duedd, cynhaliodd yr ymchwilydd drafodaethau manwl gydag aelodau eraill y tîm ymchwil ynghylch y dulliau casglu, dadansoddi a dehongli data. Lluniwyd cofnodion rheolaidd am y broses ymchwil, a dilynwyd prosesau rheoli ansawdd a oedd yn cynnwys adolygiad o ddrafftiau cychwynnol a therfynol yr adroddiad gan ddarllenydd yn Llywodraeth Cymru.

## 3. Canfyddiadau

3.1 Mae'r canfyddiadau yn cael eu cyflwyno isod o dan y penawdau a bennwyd ar ddechrau'r prosiect, ac a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi'r data a gasglwyd. Cododd rhai meysydd ychwanegol drwy'r cyfweliadau nad oeddent wedi'u hadnabod wrth lunio canllawiau holi'r prosiect. Caiff y meysydd hynny eu cyflwyno yma hefyd. Mae'n bwysig nodi fod y dystiolaeth a gyflwynir yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd oddi wrth y cyfranogwyr yn ystod y cyfnod Ionawr – Mawrth 2021; hynny yw, mae'n cynnig darlun o'r sefyllfa oedd yn bodoli ar y pryd.

**Y ddarpariaeth**

3.2 Mae'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Cyflwynir isod amlinelliad o'r ddarpariaeth yn y 10 awdurdod a gyfwelwyd.

*Awdurdod Lleol Abertawe*

3.3 Mae awdurdod lleol Abertawe yn gweithredu darpariaeth addysg drochi hwyr beripatetig, drwy dair sesiwn hanner diwrnod yr wythnos mewn pedair o ysgolion gwahanol. Mae hwyrddyfodiaid ym mlwyddyn 3 a 4 yn derbyn addysg drochi hwyr yn yr awdurdod lleol. Hyd at ddwy flynedd yn ôl, roedd gan y sir ganolfan a thîm o athrawon bro i gefnogi addysg hwyrddyfodiaid, ond oherwydd toriadau yn y gyllideb, cyflwynwyd trefniadau peripatetig i gymryd eu lle.

*Awdurdod Lleol Wrecsam*

3.4 Mae awdurdod lleol Wrecsam hefyd wedi rhoi model peripatetig ar waith ers dwy flynedd, gan gynnig cefnogaeth i hwyrddyfodiaid mewn wyth o ysgolion cynradd. Mae hyn yn golygu cefnogi dysgwyr unigol, neu grwpiau bach ar lefelau dysgu tebyg, am un sesiwn yr wythnos sydd yn para tua 45 munud. Mae cyfnod y ddarpariaeth yn gallu para chwe mis, neu gyfnod hwy os bydd angen mwy o gefnogaeth ar yr hwyrddyfodiaid. Yn ogystal ceir cefnogaeth i hwyrddyfodiaid CA3 yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg y sir.

*Awdurdod Lleol Casnewydd*

3.5 Cynigir darpariaeth addysg drochi hwyr yn awdurdod lleol Casnewydd mewn canolfan ddynodedig o fewn ysgol gynradd yn yr awdurdod, tra disgwylir i ysgol newydd, ac uned drochi ynddi, agor yn 2023. Mae hyd at wyth o hwyrddyfodiaid blwyddyn 1- 6 yn derbyn addysg drochi hwyr am gyfnod o dymor, am bedwar diwrnod a hanner yr wythnos. Mae'r dysgwyr  yn treulio prynhawn dydd Gwener yn

y fam ysgol, er mwyn cysylltu gyda'u cyfoedion. Mae cefnogaeth i hwyrddyfodiaid yn CA3 yn cael ei chynnig yn yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

*Awdurdod Lleol Sir Ddinbych*

3.6 Ar hyn o bryd yn awdurdod lleol Sir Ddinbych mae hwyrddyfodiaid CA2 yn cael eu cefnogi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, tra bod y sir yn aros i agor canolfan hyfforddi ddynodedig, gydag ystafell wedi'i neilltuo yn benodol ar gyfer hwyrddyfodiaid. Nid yw'r union drefniadau wedi'u pennu hyd yma ar gyfer y ddarpariaeth newydd.

*Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin*

3.7 Yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin, caiff addysg drochi hwyr ei chynnig gan Dîm Athrawon Datblygu'r Gymraeg. Mae'r tîm yn teithio o amgylch ysgolion i gefnogi hwyrddyfodiaid yn CA2. Mae canolfan newydd wrthi'n cael ei hadeiladu yn y sir, a disgwylir y bydd hwyrddyfodiaid CA2 a CA3 yn derbyn darpariaeth addysg drochi hwyr yno am bedwar diwrnod yr wythnos.

*Awdurdod Lleol Blaenau Gwent*

3.8 Nid yw awdurdod lleol Blaenau Gwent yn cynnig darpariaeth addysg drochi hwyr ar hyn o bryd, ond maent yn ystyried cynllunio darpariaeth fel rhan o'u CSCA 10 mlynedd cyntaf. Maent yn disgwyl i'r galw gynyddu wrth i'r sir ehangu ei darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

*Awdurdod Lleol Ceredigion*

3.9 Yn awdurdod lleol Ceredigion, mae tair canolfan ddynodedig ar gyfer hwyrddyfodiaid CA2 a'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig bedwar diwrnod yr wythnos, ac yn para am dymor. Gall y canolfannau dderbyn hyd at 12 neu 16 o hwyrddyfodiaid ar unrhyw adeg (yn dibynnu ar y lleoliad). Caiff hwyrddyfodiaid CA3 a weithiau CA4 eu cefnogi yn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y sir, ond mae'r galw am y math hwnnw o ddarpariaeth yn isel.

*Awdurdod Lleol Sir Benfro*

3.10 Yn awdurdod lleol Sir Benfro mae tair canolfan i hwyrddyfodiaid CA2 sydd yn cynnig darpariaeth am ddau ddiwrnod yr wythnos, ac mae dysgwyr yn mynychu am ddwy flynedd. Mae cwrs dilyniant, am ddiwrnod yr wythnos, yn cael ei ddarparu dros gyfnod o flwyddyn.

*Awdurdod Lleol Gwynedd*

3.11 Yn awdurdod leol Gwynedd mae pedair canolfan iaith gynradd sy'n darparu ar gyfer plant 7-11 oed, ac un ganolfan iaith uwchradd ar gyfer blynyddoedd 7, 8 a 9. Mae'r canolfannau yn darparu ar gyfer 16 o blant (ag eithrio un safle lle mae capasiti o wyth). Mae'r hwyrddyfodiaid sydd yn CA3 yn mynychu cwrs am wyth wythnos, a'r dysgwyr cynradd am 10-12 wythnos.

*Awdurdod Lleol Conwy*

3.12 Mae canolfan iaith i hwyrddyfodiaid CA2 yn Awdurdod Lleol Conwy; mae'r hwyrddyfodiaid yn derbyn y ddarpariaeth am gyfnod o dymor (10-12 wythnos). Gall y ganolfan dderbyn hyd at 12 o hwyrddyfodiaid ar un adeg, ond gellir ymestyn y capasiti i hyd at 24 os oes mwy o alw. Mae hwyrddyfodiaid sydd yn pontio rhwng addysg gynradd cyfrwng Saesneg ac addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y sir yn derbyn darpariaeth drochi yn yr ysgol uwchradd ar ffurf cyfres o sesiynau blasu ym mlwyddyn 6 a throchi dwys ym mlynyddoedd 7 ac 8.

**Heriau a chyfleoedd**

3.13 Un o amcanion yr astudiaeth oedd ceisio deall sut mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn mynd ati i gynnig neu gynllunio'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr. Amlygwyd rhai heriau y mae'r awdurdodau a'r ysgolion yn eu hwynebu, yn ogystal â ffactorau a ystyriwyd yn gyfleoedd ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Noder bod y canfyddiadau yn cynnwys tystiolaeth gan bob un grŵp o gyfranogwr a gyfwelwyd (swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, swyddogion awdurdodau lleol, swyddogion consortia addysg rhanbarthol ac Estyn), ac mae'r hyn sy'n cael ei ystyried yn her neu'n gyfle yn gallu amrywio yn ôl y math o gyfranogwr.

*Cyllid*

3.14 Ers i'r cyllid ar gyfer y Gymraeg gael ei gynnwys o fewn y GGA yn 2014-15, mae Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol unigol i glustnodi arian ar gyfer datblygu darpariaeth addysg drochi hwyr. Mae amodau'r GGA yn nodi bod rhaid i gyllideb y grant gael ei defnyddio i gefnogi gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol, wrth iddynt weithio tuag at nodau *Cymraeg 2050*.

3.15 Nododd sawl cyfwelai nad yw darpariaeth drochi hwyr yn cael ei blaenoriaethu yn yr un ffordd gan bob awdurdod lleol, a bod hyn yn golygu bod rhai siroedd yn gwario mwy ar y ddarpariaeth nag eraill.

3.16 Mewn rhai achosion, y consortia addysg rhanbarthol sydd yn dyrannu cyllid ar gyfer y ddarpariaeth addysg drochi hwyr. Golyga hyn fod arian yn cael ei glustnodi i awdurdodau lleol o fewn y rhanbarth. Nodwyd yn y cyfweliadau nad yw pob awdurdod lleol yn derbyn yr un swm o arian, a mynegwyd pryder hefyd ynghylch y posibilrwydd o weld dyraniadau yn newid yn y dyfodol wrth i fwy o siroedd ddatblygu eu darpariaeth. Mewn achosion eraill, mae cyllid y GGA yn cael ei ddirprwyo i ysgolion, a phenderfyniad yr ysgolion wedyn yw sut maent yn defnyddio'r cyllid.

3.17 Nodwyd heriau eraill a oedd yn gysylltiedig â materion cyllid. Un mater a gododd yn aml yn y cyfweliadau oedd costau uchel y ddarpariaeth, yn enwedig o'u cymharu â'r niferoedd cymharol fach o hwyrddyfodiaid sydd yn derbyn y gwasanaeth. Cyfeiriodd rhai o'r cyfweleion at y ffaith bod angen buddsoddiad refeniw yn ogystal â chyllid cyfalaf ar y ddarpariaeth: er bod cyllid cyfalaf wedi bod yn ddefnyddiol i rai awdurdodau lleol sydd wedi adeiladu lleoliadau newydd yn ddiweddar, nodwyd bod angen arian refeniw er mwyn cyflogi'r athrawon.

3.18 Nodwyd gan rai ei bod yn anodd i awdurdodau lleol neilltuo cyllid ar gyfer darpariaeth addysg drochi hwyr yn wyneb y tynhau ariannol sydd wedi bod mewn blynyddoedd diweddar. Cafwyd sylw hefyd ynghylch y ffaith nad yw o fewn natur grantiau'r llywodraeth i gwrdd â chwyddiant, a bod derbyn yr un swm tuag at y ddarpariaeth yn cyfateb i doriad mewn gwirionedd, oherwydd nad yw'n cwrdd â'r costau sydd yn cynyddu'n flynyddol.

*Adnoddau*

3.19 Maes arall a drafodwyd yn y cyfweliadau oedd yr adnoddau a ddefnyddir i addysgu mewn darpariaeth addysg drochi hwyr. Nododd rhai bod llawer o adnoddau ar gael, ond bod anawsterau yn gallu codi wrth ddewis y rhai mwyaf addas ar gyfer anghenion penodol dysgwyr mewn gwahanol ganolfannau.

3.20 Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r cyfweliadau, mae gan gonsortia addysg rhanbarthol rôl yn rhannu adnoddau i gefnogi ysgolion eu rhanbarth. Er enghraifft, fel rhan o waith diweddar Consortiwm Canolbarth y De (CCD), maent wedi creu pecyn adnoddau gyda chefnogaeth staff yr uned drochi yng Nghaerdydd, i'w rhannu ymhlith awdurdodau lleol sydd yn derbyn hwyrddyfodiaid. Diben y gwaith hwn yw i

gefnogi'r ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth iddynt integreiddio hwyrddyfodiaid i'r brif lif. Caiff y pecyn adnoddau hwn ei roi i awdurdodau lleol, ar y cyd â chanllawiau ar sut i'w defnyddio i gefnogi staff yr ysgolion. Yn dilyn buddsoddiad gan ERW i'r gwasanaeth ar gyfer holl athrawon Cymraeg ail iaith y rhanbarth, mae awdurdod lleol Sir Abertawe wedi bod yn defnyddio adnoddau cynllun ffoneg yn eu darpariaeth addysg drochi hwyr beripatetig.

*Cludiant a hygyrchedd*

3.21 Yn ystod y cyfweliadau cododd sawl mater yn ymwneud â chludiant i'r ddarpariaeth, a hygyrchedd y ddarpariaeth. Nododd yr awdurdodau lleol sydd yn darparu cludiant i'w hwyrddyfodiaid fynychu canolfan mai'r costau cludiant yw'r gost fwyaf sylweddol yng nghyllideb y ddarpariaeth. O blith yr awdurdodau a gyfwelwyd, mae Casnewydd, Ceredigion, Conwy, Dinbych, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin yn cynnig, neu'n cynllunio i gynnig, cludiant i'w hwyrddyfodiaid gyrraedd eu canolfannau. Nodwyd gan rai bod manteision i'w cael o gynnig darpariaeth beripatetig, gan fod hyn yn arbed costau teithio hwyrddyfodiaid.

3.22 Un ffactor a nodwyd gan rai o'r awdurdodau oedd bod amseroedd teithio (yn ogystal â'r costau teithio) yn her iddynt wrth gynllunio darpariaeth addysg drochi hwyr. Nodwyd gan un sir, er enghraifft, bod rhai hwyrddyfodiaid yn teithio hyd at awr a hanner bob ffordd i'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr. Adroddodd rhai awdurdodau y byddai'n rhaid i'r diwrnod ysgol fod yn fyrrach oherwydd amser cludo i ganolfannau, yn eu cynlluniau ar gyfer y ddarpariaeth. Nododd ambell i awdurdod lleol mai un peth sydd yn cyfrannu at y sefyllfa hon yw'r ffaith fod rheoliadau iechyd a diogelwch ar gyfer y cludiant yn golygu bod rhaid i'r gwasanaeth tacsi gludo'r hwyrddyfodiaid i'r ganolfan o'u mam ysgol yn hytrach nag o'u cartrefi. Yn achos ambell i awdurdod, mae'r cludiant felly yn cwtogi mwy fyth ar ddiwrnod ysgol y ddarpariaeth.

3.23 Fodd bynnag, nid oedd pob un o'r awdurdodau a holwyd yn gweld heriau wrth drafod cludiant. Cafwyd enghraifft o sir yn ystyried creu system o gydweithio gydag ysgolion uwchradd yr awdurdod a chael benthyg eu bysiau mini i'w defnyddio i gludo'r hwyrddyfodiaid i'r ganolfan. Oherwydd bod trochi hwyr yn cael ei ddarparu ar gampws yr ysgolion uwchradd, nid oes costau teithio ychwanegol i hwyrddyfodiaid CA3 yng Ngheredigion.

3.24 Mater arall a gododd yn y cyfweliadau oedd hygyrchedd y ddarpariaeth addysg drochi hwyr mewn ardaloedd gwledig. Nododd un sir bod y diffyg cysylltiadau trafnidiaeth yn yr ardal yn gorfod bod yn ystyriaeth wrth iddynt gynllunio'r ddarpariaeth, a dywedodd sir arall bod natur wledig y sir yn gallu bod yn rhwystr i hwyrddyfodiaid fynychu'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr.

*Darpariaeth anstatudol*

3.25 Un mater a nodwyd gan ambell i awdurdod lleol oedd y ffaith nad oes gorfodaeth statudol i hwyrddyfodiaid fynychu darpariaeth addysg drochi hwyr; hynny yw, mae awdurdodau lleol yn ddibynnol ar ewyllys da rhieni i ymrwymo i'w plant dderbyn darpariaeth i hwyrddyfodiaid os ydynt yn newydd i'r sector cyfrwng Cymraeg. Roedd hon yn nodwedd yn yr awdurdodau lleol hynny lle mae'r ddarpariaeth yn cael ei gweld yn hanfodol er mwyn i'r hwyrddyfodiaid allu dilyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ôl rhai o'r cyfranogwyr, mae'r ysgolion yn llwyddiannus yn egluro na fyddai'r hwyrddyfodiaid yn gallu dilyn cynnwys y gwersi prif lif heb fynychu'r ganolfan yn gyntaf.

3.26 Nodwyd hefyd, fodd bynnag, bod rhai rhieni yn gallu bod yn anfodlon i'w plant fynd i ganolfan oherwydd nad ydynt am i'w plant 'golli allan' ar brofiadau y byddent yn eu cael yn yr ysgol.

*Cynllunio'r ddarpariaeth*

3.27 Roedd un o'r awdurdodau lleol a gyfwelwyd wedi defnyddio tystiolaeth o wledydd eraill fel sail i'r gwaith cynllunio ar gyfer eu darpariaeth addysg drochi hwyr. Dywedodd eraill eu bod wedi ymgynghori neu wedi ymweld â darparwyr addysg drochi hwyr mewn mannau eraill yng Nghymru er mwyn cynllunio eu darpariaeth eu hunain. Nododd swyddogion polisi a gyfwelwyd eu bod yn cyfeirio arweinwyr mewn rhai awdurdodau lleol at swyddogion mewn awdurdodau eraill yn eu gwaith llunio CSCAau er mwyn cefnogi eu gwaith cynllunio darpariaeth addysg drochi hwyr. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi cynllunio eu darpariaeth ar sail yr hyn oedd yn ymarferol bosibl o fewn ffiniau'r cyllid gan yr awdurdod lleol, a thrwy ymgynghori gydag ysgolion a phenaethiaid yn yr awdurdodau.

3.28 Nododd rhai o'r rheiny a gafodd eu cyfweld, fodd bynnag, bod diffyg ymchwil yn y maes i gefnogi awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth addysg drochi hwyr.

*Blaengynllunio'r ddarpariaeth*

3.29 O'r cyfweliadau a gynhaliwyd, roedd pob awdurdod yn mesur y galw am y ddarpariaeth addysg drochi hwyr drwy dderbyn ceisiadau am leoedd yn y ddarpariaeth gan yr ysgolion lle mae'r dysgwyr yn ddisgyblion. Nododd un awdurdod eu bod wedi defnyddio arolwg i fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol wrth geisio blaengynllunio ar gyfer y ddarpariaeth addysg drochi hwyr, ond bod cyfradd ymateb i'r arolwg wedi bod yn isel iawn. Nododd awdurdodau eraill eu bod wedi datblygu llenyddiaeth a phamffledi ar gyfer rhieni i egluro manteision dwyieithrwydd er mwyn ceisio denu mwy i'r sector cyfrwng Cymraeg. Ni wyddwn a yw'r gwaith marchnata hwn wedi cefnogi awdurdodau i flaengynllunio ar gyfer galw am y ddarpariaeth addysg drochi hwyr. Nododd llawer bod y ddarpariaeth yn wasanaeth ymatebol sydd yn cymhlethu blaengynllunio.

3.30 Er enghraifft, nododd swyddogion mewn rhai awdurdodau nad oes modd cynllunio ar gyfer symudedd pobl, ac felly yn aml nid oes patrwm pendant i'r galw ar gyfer eu canolfannau. Yn yr un modd, ni ellir rhagweld symudedd pobl allan o'r awdurdod. Er enghraifft, nododd un awdurdod bod colled i'w gweld o ran buddsoddiad arian ac amser y ddarpariaeth yn achos hwyrddyfodiaid unigol sydd, gydag amser, yn symud o'r ardal, neu'r o'r wlad. Nodwyd mewn sawl cyfweliad bod elfen amlwg o risg yn y gwaith o flaengynllunio darpariaeth addysg drochi hwyr, yn enwedig wrth dyfu darpariaeth newydd (sydd yn gostus iawn), oherwydd nad yw'r awdurdodau yn gwybod beth fydd y galw yn y dyfodol.

3.31 Fodd bynnag, nodwyd mai un peth y gellid ei gynllunio i raddau yw twf yn y galw ar gyfer canolfan trochi hwyr pan fydd ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn agor yn yr ardal; nododd Sir Benfro eu bod wedi profi hyn yn ddiweddar.

*Pennu capasiti*

3.32 Amlygodd y dystiolaeth a gasglwyd yn y cyfweliadau fod capasiti'r ddarpariaeth yn cael ei bennu mewn ffyrdd gwahanol gan awdurdodau lleol. Mewn rhai ardaloedd pennir capasiti yn seiliedig ar faint ystafelloedd dosbarth y ddarpariaeth. Mewn sir arall caiff capasiti y ddarpariaeth ei bennu yn ôl y staff sydd ar gael. Nododd un awdurdod nad oeddent yn ymwybodol o fethodoleg benodol oedd yn pennu eu huchafswm hwy o hwyrddyfodiaid yn eu canolfannau, ond bod y niferoedd sydd wedi bod yn cael eu derbyn wedi profi'n llwyddiannus yn y gorffennol, o ran y dysgwyr yn ymgymryd â gwaith pâr, ac o ran faint o staff sydd ar gael.

3.33 Nododd un awdurdod bod pennu uchafswm capasiti yn ddefnyddiol wrth ddatblygu math newydd o ddarpariaeth. Yn ôl un awdurdod, mae cadw’r capasiti yn fach wrth ddatblygu’r gwasanaeth yn fanteisiol, gan fod canolbwyntio ar lai o ysgolion yn ei gwneud hi’n haws cynnig gwasanaeth mwy dwys i’r hwyrddyfodiaid. Nododd yr awdurdod eu pryder na fyddai’r ddarpariaeth mor effeithiol pe byddai’r capasiti yn cynyddu yn sylweddol.

3.34 Fodd bynnag, nid yw pob un o’r awdurdodau a holwyd yn gosod uchafswm ar gapasiti eu darpariaeth addysg drochi hwyr. Nododd un awdurdod nad oeddent am roi nenfwd ar nifer yr hwyrddyfodiaid a allai fanteisio ar eu gwasanaeth, gan mai nod y sir yw cynyddu niferoedd er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir. Nododd yr awdurdod bod cynnig y ddarpariaeth yn rhithiol yn ystod pandemig COVID-19 wedi ei gwneud hi’n haws cyrraedd mwy o ddysgwyr a chynyddu maint y dosbarthiadau.

*Darpariaeth aml-ddefnydd*

3.35 Mae rhai awdurdodau yn defnyddio’r adnodd neu’r lleoliad addysg drochi hwyr at ddibenion eraill, pan nad oes galw am ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid. Er enghraifft, defnyddir canolfan Sir Gaerfyrddin i addysgu hwyrddyfodiaid yn ogystal â chynnig gwasanaethau Cymraeg eraill. Cynhelir cyrsiau Cymraeg i Oedolion, cyrsiau Cymraeg i rieni hwyrddyfodiaid, cyrsiau pontio rhwng y sector cynradd a’r uwchradd, a chyrsiau’r Cynllun Sabothol i wella sgiliau Cymraeg athrawon, yn y ganolfan.

3.36 Yng Ngheredigion, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn parhau hyd yn oed os bydd y galw yn isel, mae’n bolisi gan y sir i gynnig y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid sydd eisoes wedi derbyn addysg drochi hwyr ac sydd wedi dychwelyd i’w hysgolion, ond a fyddai’n cael budd o ‘ail-ymweld’ â’r cwrs dwys er mwyn cryfhau eu sgiliau ieithyddol. Yn awdurdod Abertawe, mae grwpiau addysgu hwyrddyfodiaid yn cynnwys yn ogystal ddysgwyr eraill yn y sector cyfrwng Cymraeg sydd am wella eu sgiliau iaith.

3.37 Cyfeiriodd cyfweleion eraill at y posibiliadau o ran cynnig darpariaeth drochi hwyr i ddysgwyr nad ydynt yn ‘hwyrddyfodiaid’, ond a allai fod angen cefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg ar wahanol bwyntiau yn ystod eu taith addysgol.

.

*Arbenigedd a hyfforddiant ymarferwyr*

3.38 O blith yr awdurdodau a gyfwelwyd mae'r rhan fwyaf o staff cyfredol y ddarpariaeth wedi bod yn gweithio ym maes addysg drochi hwyr ers amser hir – rhai ers pymtheng mlynedd a mwy. Her yn ôl un o'r swyddogion a gyfwelwyd fydd sicrhau bod digon o arbenigwyr at y dyfodol sydd yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ddarparu addysg drochi hwyr. Nododd bod ymarferwyr allweddol yn ymddeol a bod angen trosglwyddo'r arfer dda a'r arbenigedd i'r genhedlaeth nesaf o ymarferwyr.

3.39 Un mater a nodwyd (ymhlith materion eraill) yn y cyfweliadau gyda'r swyddogion polisi a gyfwelwyd oedd bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol nad oes llawer o ymchwil na gwybodaeth am hyfforddiant i athrawon o ran dulliau trochi. Nodwyd nad oes llawer o wybodaeth ar gael am y math o hyfforddiant y mae awdurdodau lleol neu gonsortia addysg rhanbarthol yn ei gynnig i ymarferwyr yn y maes addysg drochi. Ymhlith yr argymhellion yn ei adroddiad thematig ar gaffael y Gymraeg , mae Estyn (2021: 35) yn nodi 'y dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ddarparu hyfforddiant i ddwysau dealltwriaeth ymarferwyr o'r modd y mae dysgwyr yn caffael y Gymraeg, ac o fethodoleg effeithiol o ran trochi iaith'.

3.40 Disgrifiwyd y maes addysg drochi hwyr yn '*niche'* gan un cyfranogwr, yn yr ystyr 'nad oes angen hyfforddi cannoedd o bobl ar unrhyw adeg i ddarparu'r math yna o addysg' oherwydd bod nifer yr hwyrddyfodiaid yn gymharol isel. Er mwyn sicrhau bod arfer dda yn cael ei throsglwyddo, awgrymodd y gallai darparwyr hyfforddiant athrawon, awdurdodau lleol a chonsortia weithio gyda'i gilydd i gynnal hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr, a bod modd cynnal hyfforddiant cenedlaethol yn rhithiol.

3.41 Ar hyn o bryd caiff cyllid ei ddynodi ar gyfer dysgu proffesiynol gan Lywodraeth Cymru drwy awdurdodau lleol neu gonsortia, ac nid yw'r rheiny yn adrodd yn benodol ar hyfforddiant ar gyfer y maes trochi hwyr. Cyhoeddwyd y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ym mis Medi 2017 ac mae'n ofynnol i athrawon weithio tuag at y safonau wrth ddatblygu eu harfer. Nod y safonau proffesiynol addysgu yw cefnogi athrawon i fanteisio ar eu dysgu proffesiynol personol a llywio dadansoddiad o anghenion dysgu proffesiynol, drwy gynyddu'r ddeialog rhwng arweinwyr ac ymarferwyr. Gyda'r safonau newydd gallai ymarferwyr amlygu bod angen hyfforddiant ar agweddau o drochi arnynt i'w rheolwyr. Mae gwerthusiad o weithrediad y safonau bellach ar waith ar ran Llywodraeth Cymru.

3.42 Mae rhai o'r awdurdodau lleol yn hyfforddi ymarferwyr y canolfannau yn y swydd. Er enghraifft, mewn un awdurdod, oherwydd bod dau aelod staff ym mhob canolfan, mae mentor ar gyfer pob athro newydd. Unwaith y bydd yr athro wedi rhedeg y cwrs am dymor, caiff yr unedau gwaith eu hailadrodd bob tymor. Mewn sir arall mae ymarferwyr newydd yn treulio cyfnod yn cysgodi ymarferwr profiadol fel rhan o'u hyfforddiant.

*Mesur cynnydd dysgwyr*

3.43 Mae rhai darparwyr addysg drochi hwyr yn asesu cynnydd hwyrddyfodiaid drwy ddefnyddio asesiadau meintiol penodol. Er enghraifft, yng Ngwynedd y disgwyliad yn gyffredinol yw i hwyrddyfodiaid gyrraedd lefel 2 yn y cwricwlwm ar lafar erbyn diwedd eu cyfnod yn eu canolfannau iaith, tra bod awdurdod lleol Conwy yn disgwyl bod hwyrddyfodiaid y sir yn cyrraedd lefel 3 er mwyn cymathu i'r brif ffrwd.

3.44 Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio dulliau tracio cynnydd er mwyn mesur cynnydd hwyrddyfodiaid. Nododd un awdurdod lleol bod gwaith ymchwil wedi'i gynnal gan y sir a oedd yn golygu dilyn taith addysgol hwyrddyfodiaid ar ôl iddynt fynychu'r ganolfan, er mwyn mesur eu cynnydd dros amser. Mewn awdurdod lleol arall, cafwyd gwaith yn ddiweddar i edrych ar gynnydd yr hwyrddyfodiaid yn CA3.

3.45 Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, mae'n ymddangos nad yw dulliau mesur cynnydd pob un o'r awdurdodau a gyfwelwyd yn systematig. Mewn nifer o siroedd, mae'r broses monitro yn digwydd yn 'naturiol' ar hyn o bryd; hynny yw, mae'r staff yn edrych ar safon iaith yr hwyrddyfodiaid pan maent yn cyrraedd y ganolfan, ac yn ei gymharu â lle maent wedi cyrraedd erbyn diwedd eu cyfnod yn y ganolfan. Nododd rhai awdurdodau eu bod, er nad ydynt yn casglu data meintiol yn ystod y ddarpariaeth addysg drochi hwyr, yn gweithio tuag at lefelau cenedlaethol ac yn ystyried tystiolaeth amrywiol o'r cynnydd hwnnw, er enghraifft recordio gwaith llafar, a chofnodi gwaith ysgrifenedig. Mewn rhai awdurdodau, ceir nosweithiau agored i hwyrddyfodiaid ar ddiwedd eu cyfnod yn y ddarpariaeth i ddangos eu sgiliau llafar, a nododd rhai o'r awdurdodau bod adroddiad o gynnydd yr hwyrddyfodwr yn cael ei baratoi ar gyfer rhieni ac athrawon.

3.46 Nododd rhai awdurdodau eu bod yn dechrau datblygu cynlluniau newydd ar gyfer mesur cynnydd yn y dyfodol. Dywedodd un sir eu bod yn ystyried datblygu system lle mae modd tracio yn fwy rheolaidd er mwyn adrodd ar gynnydd y dysgwr, ac edrych yn fanylach ar ba fath o gefnogaeth fyddai ei hangen ar y dysgwyr i gefnogi

eu cynnydd.  Dywedodd sir arall eu bod yn adolygu'r broses o fesur cynnydd, drwy gydweithio ag ysgolion y dysgwyr.

3.47 Tra'n nodi nad yw prosesau monitro pob darparwr yr un fath, mae'n bwysig nodi yn ogystal bod sefyllfa ieithyddol yr ysgolion mae dysgwyr yn trosglwyddo neu yn dychwelyd iddynt hefyd yn amrywio. Pan mae hwyrddyfodiaid yn cwblhau eu cyfnod o addysg drochi hwyr, mae rhai yn dychwelyd i addysg ddwyieithog, a rhai i addysg cyfrwng Cymraeg, a gall fod disgwyliadau gwahanol o ran eu  cyrhaeddiad yn seiliedig ar hynny.

*Cymorth parhaus i ddysgwyr*

3.48 Cynigir dau fath o ddarpariaeth ôl-ofal yn yr awdurdodau lleol a gyfwelwyd, sef gwasanaeth allgymorth lle mae athrawon y ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn cynnig cefnogaeth ychwanegol i hwyrddyfodiaid sydd wedi dychwelyd i'r ysgol, ac ymestyn hyd cyfnod y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid nad ydynt yn barod i drosglwyddo i'r brif ffrwd. Er enghraifft, yn awdurdodau Casnewydd a Chonwy, cedwir cyswllt ôl-ofal ar ôl i'r dysgwyr ddychwelyd i'w hysgolion, a chânt eu monitro am gyfnod. Os bydd galw am gefnogaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod hwnnw, yna mae'r awdurdod yn gallu darparu hynny.

3.49 Yn Wrecsam, lle mae'r gwasanaeth yn beripatetig yn hytrach nag yn cael ei gynnig drwy ganolfan ddynodedig, caiff ôl-ofal ei gynnig ar sail ymestyn hyd y ddarpariaeth. Ar ôl i'r dysgwyr ddychwelyd i'r dosbarth yn y brif ffrwd, mae'r cydlynydd yn rhoi pecyn o adnoddau iddynt weithio arnynt gyda chymhorthydd dosbarth. Os bydd yr athro dosbarth o'r farn bod angen mwy o gymorth ar ddysgwr, mae'r cydlynydd ar gael i ddod yn ôl i'r ysgol i roi cefnogaeth ychwanegol. Yn Abertawe, lle mae'r ddarpariaeth hefyd yn beripatetig erbyn hyn, yn y gorffennol roedd dysgwyr yn derbyn y ddarpariaeth am gyfnod hwy os nad oeddent yn barod i ymuno â'r brif ffrwd, er mai yn anaml roedd hyn yn digwydd (ac am resymau penodol). Y bwriad yw parhau â'r trefniant hwn o dan y trefniadau newydd.

3.50 Fodd bynnag, nid pob awdurdod sydd yn cynnig gwasanaeth ôl-ofal fel rhan o'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr. Nododd un awdurdod lleol nad oes modd cynnig gwasanaeth ôl-ofal, oherwydd bod athrawon y ddarpariaeth yn blaenoriaethu hwyrddyfodiaid newydd yn eu darpariaeth. Nododd yr awdurdod hwn bod y cyfnod clo yn ystod COVID-19, fodd bynnag, wedi dangos bod modd cynnig yr ôl-ofal yn rhithiol (gweler adran effaith y pandemig am ragor o enghreifftiau o hyn). Nododd

awdurdod arall sydd yn cynnig ôl-ofal ar hyn o bryd eu bod am i'r fam ysgol gymryd mwy o gyfrifoldeb dros yr hwyrddyfodiaid er mwyn helpu'r broses o integreiddio'r dysgwyr i'w haddysg brif ffrwd.

*Ymwneud y consortia addysg rhanbarthol â'r ddarpariaeth*

3.51 Ceir gwahanol lefelau o ymwneud gan y consortia addysg rhanbarthol yn y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid. Isod ceir crynodeb o waith y consortia o ran y ddarpariaeth addysg drochi hwyr, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r cyfweliadau.

3.52 Mae CCD wedi cydweithio â chanolfan ddynodedig ar gyfer hwyrddyfodiaid yng Nghaerdydd i greu a rhannu pecyn o adnoddau ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn y rhanbarth sydd yn derbyn hwyrddyfodiaid. Mae'r rhanbarth yn bwriadu datblygu adnoddau ar gyfer hwyrddyfodiaid sydd yn pontio rhwng blwyddyn 6 y sector cyfrwng Saesneg a blwyddyn 7 y sector cyfrwng Cymraeg. Mae CCD yn rhan o drafodaethau a fforymau sydd yn ymwneud â CSCAau awdurdodau lleol yn y rhanbarth, lle trafodir addysg drochi hwyr ar adegau. Nododd y consortiwm nad yw CCD yn arwain ar y ddarpariaeth drochi, ond eu bod yn cefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gynnig y ddarpariaeth. Nid yw'r consortiwm yn casglu unrhyw ddata am y ddarpariaeth, ac ni chafwyd tystiolaeth bod trafodaethau yn digwydd ar lefel consortiwm ynghylch y ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn benodol.

3.53 Mae Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) De-ddwyrain Cymru yn rhan o rai trafodaethau fforwm CSCA yr awdurdodau lleol yn y rhanbarth, ac o drafodaethau gydag ysgolion unigol am gynllunio darpariaeth addysg drochi hwyr. Nododd y consortiwm eu bod hefyd yn rhwydweithio yn ehangach gydag awdurdodau lleol sydd yn cynnig darpariaeth er mwyn rhannu profiadau gyda'r rhanbarth.

3.54 Mae GwE yn cefnogi'r awdurdodau lleol yn eu rhanbarth i gyflawni amcanion eu CSCAau, ond oherwydd bod anghenion y rhanbarth o ran addysg drochi hwyr mor wahanol o'r dwyrain i'r gorllewin, mae'r gwaith cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth yn digwydd yn yr awdurdodau lleol. Trafodir addysg drochi hwyr mewn trafodaethau clwstwr ysgolion, ond nid yw'r consortiwm yn ymwneud â chynllunio'r model nac yn casglu data am hwyrddyfodiaid. Nid yw ERW yn ymwneud yn benodol â'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr.

*Ymwneud Llywodraeth Cymru â'r ddarpariaeth*

3.55 Nodwyd mewn cyfweliadau â swyddogion polisi eu bod mewn cyswllt rheolaidd â'r awdurdodau lleol fel rhan o waith ehangach y CSCAau, a bod trafodaethau am addysg drochi hwyr yn gallu codi drwy'r gwaith hwnnw. Mae swyddogion polisi yn mynychu fforymau CSCA yr awdurdodau lleol. Nododd rhai o'r awdurdodau nad yw Llywodraeth Cymru yn rhan o gynllunio ar gyfer y ddarpariaeth addysg drochi hwyr, fodd bynnag.

*Awdurdodau lleol yn cydweithio*

3.56 Amlygwyd drwy nifer o gyfweliadau bod awydd cryf mewn awdurdodau lleol i gydweithio gydag awdurdodau eraill ar y ddarpariaeth addysg drochi hwyr. Cafwyd enghreifftiau o awdurdodau yn cyfarfod i gyd-drafod, ac yn rhannu arfer dda. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, nid yw pob awdurdod lleol a gyfwelwyd yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill. Nododd rhai bod nodweddion ac anghenion pob sir yn wahanol, sy'n golygu bod darpariaeth trochi hwyr pawb yn wahanol iawn. Nododd un cyfranogwr bod pawb yn 'gweithio yn y tywyllwch' o ran eu darpariaeth eu hunain.

*Partneriaid eraill*

3.57 Mae rhai awdurdodau lleol yn blaenoriaethu sefydlu a chynnal partneriaethau ehangach wrth ddarparu addysg drochi hwyr. Nododd sawl awdurdod a gyfwelwyd bod angen partneriaethau da gyda phenaethiaid ysgolion unigol hefyd, i gynnal ac ategu'r gwaith trochi sydd ei angen ar hwyrddyfodiaid ar ôl iddynt ddychwelyd i'r brif lif.

*COVID-19*

3.58 Yn gyffredinol, nodwyd gan yr awdurdodau lleol bod COVID-19 wedi effeithio ar nifer yr hwyrddyfodiaid yn y ddarpariaeth addysg drochi hwyr. Nododd rhai siroedd bod niferoedd wedi gostwng yn sylweddol (mewn addysg drochi hwyr yn ogystal â'r sector cyfrwng Cymraeg yn ehangach) dros y cyfnod clo. Gwelodd rhai fod nifer helaeth o rieni yn symud eu plant o'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr i'r sector cyfrwng Saesneg oherwydd nad oeddent yn teimlo bod digon o fewnbwn ieithyddol ar gael yn rhithiol. Fodd bynnag, roedd awdurdodau eraill wedi gweld twf mewn niferoedd ers y cyfnod clo.

3.59 Cafwyd sylwadau eraill am y ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn ngoleuni'r pandemig hefyd. Nododd rhai bod y cyfnod clo wedi amlygu'r ffaith bod mwy o ddysgwyr (nid dim ond hwyrddyfodiaid) yn gallu elwa o'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr. Er enghraifft, cafwyd sylw mewn un cyfweliad y gallai dysgwyr yn y brif ffrwd fanteisio ar addysg drochi hwyr i gryfhau eu sgiliau iaith os nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad ar yr aelwyd. Nodwyd mewn cyfweliad arall y gellid, yn y dyfodol, ddefnyddio pecyn adnoddau ar gyfer hwyrddyfodiaid yn y rhanbarth gyda dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref.

3.60 Cyfeiriodd llawer o gyfranogwyr at waith caled athrawon trochi hwyr yn ystod y pandemig, a bu llawer o ganmol ar hyn.

3.61 Pwynt arall a gododd oedd manteision defnyddio technoleg i gynnal cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid y ddarpariaeth addysg drochi hwyr. Cyfeiriodd un awdurdod at gyfleoedd i ddefnyddio technoleg i gynnal y ddarpariaeth, gan gynnwys y ffaith bod penaethiaid ysgolion y sector cyfrwng Cymraeg wedi bod yn bresennol yn sesiynau ffrydio byw y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod clo, ac wedi gweld y gweithgareddau a'r amrywiaeth o strategaethau yn y gwersi am y tro cyntaf. Nododd awdurdod arall bod technoleg wedi arwain at fwy o gyswllt rhwng y ganolfan a'r cartref, a rhieni yn gweld cynnydd eu plant yn uniongyrchol wrth iddynt ymgymryd â'r gwersi o'u cartrefi.

3.62 Cafwyd nifer o sylwadau hefyd am y cyfleoedd newydd posibl ar gyfer dysgu cyfunol a ffrydio byw drwy ddefnyddio technoleg i gynnal ac ehangu'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr. Er enghraifft, nododd un cyfranogwr y gallai dysgu cyfunol leihau'r angen am adnoddau megis staff ac ystafelloedd penodol ac y gellid cynnig rhai agweddau o'r ddarpariaeth ar-lein. Dywedodd cyfranogwr arall y byddai modd i rai hwyrddyfodiaid nad ydynt yn fodlon teithio i'r ganolfan trochi hwyr fanteisio ar y ddarpariaeth yn rhithiol. Nododd rhai bod addysgu rhithiol yn ystod COVID-19 wedi cyflwyno dulliau gwahanol o ddarparu ôl-ofal. Cafwyd un sylw hefyd bod cyfnod y pandemig wedi bod yn gyfle i foderneiddio'r adnoddau a ddefnyddir gyda hwyrddyfodiaid.

3.63 Fodd bynnag, nododd rhai awdurdodau nad oedd safon y ddarpariaeth a gynigir ar-lein, yn eu barn hwy, cystal â'r ddarpariaeth wyneb i wyneb.

### Mesur effaith y ddarpariaeth

3.64 Isod, amlinellir i ba raddau y mae'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr a gynigir ar hyn o bryd yn caniatáu i effeithiolrwydd y modelau gael ei asesu.

*Mesur effaith y ddarpariaeth drwy fesur cynnydd hwyrddyfodiaid*

3.65 O'r dystiolaeth a gasglwyd, mae effaith y ddarpariaeth ym mwyafrif yr awdurdodau lleol a gyfwelwyd yn cael ei fesur drwy fesur cynnydd dysgwyr. Mewn rhai awdurdodau lleol, defnyddir tystiolaeth naratif i fesur y cynnydd hwn. Roedd nifer o'r swyddogion awdurdodau lleol a gyfwelwyd yn awyddus i rannu hanesion hwyrddyfodiaid a oedd wedi bod drwy'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr, ac a oedd bellach yn rhugl yn yr iaith. Cyfeiriodd ambell un at gyflawniadau dysgwyr unigol megis ysgrifennu straeon a chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Soniodd ambell i awdurdod eu bod yn cynnal nosweithiau agored cyhoeddus er mwyn dangos i rieni a phlant eraill bod hwyrddyfodiaid wedi llwyddo i ddysgu'r iaith. Roedd hi'n amlwg o'r cyfweliadau bod swyddogion yn falch iawn o'r ddarpariaeth a gynigir ganddynt, ac roeddent, mewn rhai achosion, yn rhyfeddu at gynnydd y dysgwyr.

3.66 Mewn rhai o'r awdurdodau lleol a gyfwelwyd, mae athrawon ysgolion y dysgwyr yn rhoi adborth yn rheolaidd i'r canolfannau am gynnydd yr hwyrddyfodiaid, a dywedodd un swyddog a gyfwelwyd bod perthynas agos wedi'i sefydlu rhwng ysgolion a'r ganolfan iaith er mwyn hwyluso cyfathrebu am gynnydd yr hwyrddyfodiaid. Ym marn un cyfranogwr, yn wyneb y ffaith nad oes data swyddogol cadarn i fesur effaith y ddarpariaeth addysg drochi hwyr, mae tystiolaeth naratif ar gynnydd y dysgwyr yn well na dim.

3.67 Mewn un awdurdod lleol, mae'r swyddog a gyfwelwyd yn ymweld â'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr a nododd y gellir 'gweld llafaredd yn gwella a hyder yn tyfu' yn yr hwyrddyfodiaid sydd yn mynychu'r ddarpariaeth.

3.68 Mewn rhai achosion, mae awdurdodau yn mesur cynnydd dysgwyr yn feintiol yn ystod eu cyfnod yn y ddarpariaeth addysg drochi hwyr. Dywedodd Conwy eu bod yn disgwyl i hwyrddyfodiaid ymgyrraedd at lefel 3 erbyn diwedd eu cyfnod yn y ganolfan. Yng Ngwynedd, yn gyffredinol disgwylir i hwyrddyfodiaid gyrraedd lefel 2 ar lafar yn Gymraeg ar ddiwedd eu cyfnod yn y ddarpariaeth.

3.69 Nodwyd gan Estyn yn ddiweddar am addysg cyfrwng Cymraeg, a'r ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid fel rhan o hyn:

> 'Yn gyffredinol, mae deunyddiau allanol i asesu medrau caffael iaith dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn brin. Felly, nid yw deilliannau asesu o'r deunyddiau sydd ar gael ar hyn o bryd yn arwain at wybodaeth ddefnyddiol wrth fesur cynnydd dysgwyr, yn enwedig wrth ystyried y cynnydd a wnânt o'u mannau cychwyn amrywiol. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ac ymarferwyr amgyffrediad digon cadarn o'r cynnydd a wneir gan ddysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr, er enghraifft hwyrddyfodiaid a dysgwyr o gartrefi Cymraeg eu hiaith.' (Estyn 2021: 74).

3.70 Comisiynodd un awdurdod lleol a gyfwelwyd ddarn o waith ymchwil i dracio taith addysgol dysgwyr ar ôl iddynt fynychu'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr a dychwelyd i'w hysgolion, er mwyn mesur effaith y ddarpariaeth. Yn ôl yr awdurdod, roedd yr ymchwil yn dangos bod hwyrddyfodiaid yn gwneud cynnydd clir yn y Gymraeg ar ôl gadael y ganolfan. Heb dracio'r hwyrddyfodiaid yn fwriadus ar ôl iddynt ddychwelyd i'r brif lif, fodd bynnag, nid oes system ar waith sydd yn gwahaniaethu dysgwyr sydd wedi mynychu darpariaeth addysg drochi hwyr o'u cyfoedion yn y brif lif. Nodwyd mewn cyfweliad arall bod y sir yn ystyried datblygu system lle mae modd tracio hwyrddyfodiaid ar hyd cyfnodau allweddol yn fwy rheolaidd ac yn fwy ffurfiol.

*Mesur effaith y ddarpariaeth drwy holiaduron*

3.71 Nododd swyddogion un awdurdod lleol eu bod wedi gofyn am adborth ar y ddarpariaeth addysg drochi hwyr drwy ddosbarthu holiadur i rieni ac athrawon sgil COVID-19, gyda'r nod o addasu'r ddarpariaeth pe byddai angen.

## 4. Casgliadau ac ystyriaethau at y dyfodol

4.1 Mae’r ymarfer mapio hwn wedi dangos bod y modelau ar gyfer cyflwyno addysg drochi hwyr mewn rhannau gwahanol o Gymru yn amrywio. Mae rhai yn cynnig darpariaeth beripatetig, rhai yn cynnig darpariaeth o fewn yr ysgol ei hun, ac eraill yn cynnig darpariaeth mewn canolfannau dynodedig. Mae pob awdurdod lleol a gyfwelwyd yn wynebu rhai heriau wrth gynnig neu gynllunio’r ddarpariaeth addysg drochi hwyr.

4.2 Nododd sawl cyfwelai bod costau rhedeg y ddarpariaeth yn uchel, yn enwedig o’u cymharu â niferoedd cymharol fach o hwyrddyfodiaid sydd yn defnyddio’r gwasanaeth. Adroddwyd nad yw pob awdurdod lleol yn clustnodi’r un swm o arian oherwydd nad yw’r ddarpariaeth yn cael ei blaenoriaethu yn yr un ffordd ym mhob sir, a bod rhai siroedd yn gwario mwy ar y ddarpariaeth nag eraill. Mae rhai awdurdodau’n wynebu toriadau yn y cyllid a ddaw drwy’r GGA; yn aml caiff y math o ddarpariaeth a gynigir ei lywio gan faint o gyllid a ddyrennir ar gyfer y ddarpariaeth. Nododd rhai awdurdodau fod cynllunio cludiant i ganolfannau addysg drochi hwyr yn gallu bod yn her oherwydd y gost, ac mewn rhai achosion mae amser y dysgwyr yn y ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn cael ei gwtogi oherwydd trefniadau cludiant.

**Ystyriaeth at y dyfodol:**

**Wrth gynllunio i ehangu’r ddarpariaeth addysg drochi hwyr, gellid ystyried a oes angen datblygu dealltwriaeth fanylach o faint o gyllid y mae awdurdodau lleol, consortia ac ysgolion yn ei ddynodi ar gyfer y ddarpariaeth addysg drochi hwyr, a pha gyfran o’r cyllid hwn sy’n cael ei wario ar gostau cludiant.**

4.3 Roedd rhai awdurdodau lleol yn bryderus am rieni sydd yn anfodlon anfon eu plant i ganolfannau oherwydd nad yw mynychu’r ddarpariaeth yn ofyniad statudol.

**Ystyriaeth at y dyfodol:**

**Gallai awdurdodau lleol ystyried defnyddio eu polisïau iaith sirol a’u CSCAau er mwyn annog rhieni i ddewis anfon eu plant i ganolfannau addysg drochi hwyr. Gallai Llywodraeth Cymru gefnogi hyn drwy eu gwaith gydag awdurdodau lleol ar ddatblygu eu CSCAau a phwysleisio pwysigrwydd y canolfannau i gynnal polisïau iaith ysgolion unigol.**

4.4 Mae staff y ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn brofiadol iawn mewn rhai awdurdodau lleol ble mae'r ddarpariaeth yn hir-sefydlog, gyda rhai yn gweithio yn y maes ers dros 15 mlynedd. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd mae'n ymddangos y gallai sicrhau hyfforddiant penodol i athrawon trochi hwyr sydd yn newydd i'r swydd fod yn her. Bydd hyn yn bwysig wrth i rai awdurdodau lleol ddechrau cynllunio ar gyfer darpariaeth newydd. Mewn rhai mannau, mae'r hyfforddiant i ymarferwyr yn digwydd yn fewnol mewn lleoliadau. Nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn gwybodaeth am y math o hyfforddiant y mae awdurdodau lleol neu gonsortia addysg rhanbarthol yn ei gynnig i ymarferwyr y ddarpariaeth addysg drochi hwyr.

**Ystyriaeth at y dyfodol:**

**Gellid ystyried dulliau o gasglu gwybodaeth am y math o hyfforddiant y mae awdurdodau lleol neu gonsortia addysg rhanbarthol yn ei gynnig i ymarferwyr y ddarpariaeth addysg drochi hwyr. Gallai hyn fod yn sail ar gyfer creu darlun cynhwysfawr o'r hyfforddiant a gynigir, a sicrhau cysondeb a safon uchel ar gyfer hyfforddiant ar draws Cymru.**

4.5 O ran cynnig cymorth parhaus i hwyrddyfodiaid, roedd rhai o'r awdurdodau lleol a gyfwelwyd yn cynnig gwasanaeth allgymorth i roi cefnogaeth bellach, ac roedd eraill yn cynnig ymestyn hyd y ddarpariaeth os oedd angen rhagor o gefnogaeth ar hwyrddyfodiaid. Mewn rhai achosion, nid yw hwyrddyfodiaid yn cael eu cefnogi drwy gynllun ôl-ofalaeth wedi iddynt ddychwelyd i'r brif ffrwd.

**Ystyriaeth at y dyfodol:**

**Gellid ystyried a oes angen ffurfioli neu gysoni'r trefniadau ar gyfer ôl-ofalaeth yn dilyn cyfnod o drochi hwyr, gyda'r nod o sicrhau bod dysgwyr yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas. Fel rhan o hyn gellid ystyried rôl athrawon wrth iddynt gefnogi hwyrddyfodiaid sydd yn dychwelyd i'r brif ffrwd.**

4.6 Er bod cysylltiadau yn bodoli rhwng awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymarfer mapio yn awgrymu bod natur y cysylltiadau hyn yn amrywiol ac yn gymhleth. Ar y cyfan, awdurdodau lleol sydd yn arwain yn strategol ar bob agwedd o gynllunio'r ddarpariaeth. Nododd rhai o'r cyfranogwyr eu bod yn cydweithio ac yn rhannu adnoddau drwy feithrin cysylltiadau rhwng awdurdodau â'i gilydd, a rhwng awdurdodau a'r consortia addysg rhanbarthol.

**Ystyriaeth at y dyfodol:**

**Mae llawer o brofiad gan yr awdurdodau a gyfwelwyd o ran cynllunio a chyflwyno addysg drochi hwyr. Gellid ystyried dulliau posibl o hwyluso cydweithio pellach rhwng awdurdodau lleol a hefyd gyda, a rhwng, consortia addysg rhanbarthol.**

4.7 Cafwyd tystiolaeth bod pandemig COVID-19 wedi cyflwyno her ychwanegol i awdurdodau lleol o ran cynllunio a chynnig eu darpariaeth. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn gweld bod cyfleoedd yn y dyfodol o bosibl i ehangu eu darpariaeth trochi hwyr, a'r ddarpariaeth ôl-ofal, drwy ddefnyddio technegau addysgu rhithiol, gyda hynny yn lleihau'r angen am ystafelloedd dosbarth corfforol. Ar fater gwahanol ond cysylltiedig nododd rhai o'r awdurdodau lleol a gyfwelwyd bod y lleoliad ar gyfer y ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill yn ogystal pan nad oes galw am ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid.

**Ystyriaethau at y dyfodol:**

- **Gellid ystyried sut i ddysgu o'r profiadau sydd wedi dod yn sgil COVID-19 ac archwilio potensial dysgu cyfunol a thechnegau dysgu iaith drwy ddulliau rhithiol, wrth gynllunio'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr a'r gefnogaeth ddilynol i ddysgwyr.**
- **Gellid ystyried yn ogystal a oes potensial i fwy o ddarparwyr addysg drochi hwyr ystyried cynnig eu lleoliadau at ddibenion eraill pan nad oes galw am y ddarpariaeth.**

4.8 Mae tystiolaeth yr ymarferiad mapio hwn yn awgrymu bod amrywiaethau yn y ffyrdd y caiff effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg drochi hwyr ei fesur a'i ddehongli. Un o amcanion yr astudiaeth hon oedd i archwilio i ba raddau y mae mecanweithiau darparu addysg drochi hwyr yn caniatáu i effeithiolrwydd y ddarpariaeth gael ei fesur. Nododd pob awdurdod a gyfwelwyd sydd yn cynnig darpariaeth addysg drochi hwyr eu bod yn credu bod eu model hwy yn effeithiol wrth greu siaradwyr newydd.

4.9 Mae effaith y ddarpariaeth yn cael ei fesur yn bennaf drwy'r cynnydd a welir yng ngallu ieithyddol yr hwyrddyfodiaid. Yn debyg i un o ganfyddiadau gwerthusiad terfynol y prosiectau peilot addysg drochi a dysgu iaith drwy ddulliau dwys (Llywodraeth Cymru 2008: 129), roedd nifer o gyfranogwyr yn credu mai gallu'r dysgwyr i gyrraedd 'trothwy ieithyddol', sef y pwynt lle mae dysgwyr yn caffael y

sgiliau iaith sydd eu hangen arnynt i gymathu'n effeithiol mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg, oedd yn profi fod y ddarpariaeth wedi gweithio. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, mae'n ymddangos nad yw'r cynnydd hwn tuag at drothwy yn cael ei gofnodi ar ffurf data cadarn ym mhob achos. Dibynnir yn hytrach ar dystiolaeth naratif gan athrawon. Wedi dweud hynny, dywedodd rhai awdurdodau lleol bod angen dulliau tracio cynnydd mwy ffurfiol ar y ddarpariaeth, er mwyn mesur effaith y ddarpariaeth ar gynnydd dysgwyr dros gyfnod o amser. Cafwyd enghraifft o awdurdod yn defnyddio holiadur i gasglu gwybodaeth am effaith y ddarpariaeth.

**Ystyriaeth at y dyfodol:**

**Ar hyn o bryd mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio data lefelau cenedlaethol er mwyn mesur cynnydd dysgwyr. Wrth i drefniadau cwricwlwm ac asesu newydd gael eu rhoi ar waith o 2022 ymlaen bydd y nod o ddilyn cynnydd dysgwyr sydd yn derbyn darpariaeth addysg drochi hwyr yn codi cwestiynau newydd. Wrth i ddulliau posibl o olrhain cynnydd dros amser gael eu trafod, gellid hefyd ystyried defnyddio'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) i nodi a yw disgyblion yn derbyn darpariaeth addysg drochi hwyr ar hyn o bryd, neu a ydynt wedi derbyn darpariaeth o'r fath yn y gorffennol.**

4.10 Er mwyn mesur effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn gadarn, rhaid i'r data a'r dystiolaeth a ddefnyddir fod yn ddibynadwy, yn gyson ac yn briodol ar gyfer y dasg. Ar hyn o bryd, nid oes ffordd systematig o fesur a yw'r mathau gwahanol o ddarpariaeth yn effeithiol. Mae amrywiaeth o elfennau, yn ogystal â data cynnydd dysgwyr, sydd yn gallu cyfrannu at ein dealltwriaeth o effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg drochi hwyr: mae'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar gynnydd hwyrddyfodiaid yn y Gymraeg yn niferus ac yn gymhleth. Ymhlith materion eraill, byddai angen ystyried y ddarpariaeth ôl-ofal a'r gefnogaeth a roddir i'r dysgwyr wedi iddynt ddychwelyd i'r brif ffrwd.

**Ystyriaethau at y dyfodol:**

- **Gallai datblygu theori – neu theorïau – newid gynnig sail defnyddiol ar gyfer cynllunio, a mesur effeithiolrwydd, rhaglenni addysg drochi hwyr yn y dyfodol. Byddai hyn yn cynnig cyfle i archwilio'r gydberthynas rhwng nodau ac amcanion rhaglenni neu fodelau, a'r amcanion tymor canolig a**

**hwy y bwriedir iddynt eu cyflawni. Byddai hefyd yn cynnig cyfle i nodi a phrofi'r rhagdybiaethau sydd yn gysylltiedig â'r rhaglenni a'r modelau, ac i adnabod y ffactorau allanol a allai ddylanwadu ar weithrediad y rhaglenni.**

- **Byddai datblygu theorïau newid hefyd yn ffordd o amlygu'r mathau o dystiolaeth (tystiolaeth ansoddol a meintiol), a'r ffynonellau data, a allai gyfrannu at ddealltwriaeth fwy cynhwysfawr o effaith ac effeithiolrwydd y rhaglenni.**

4.11 Yn ystod yr ymarfer mapio ni chafwyd tystiolaeth glir bod awdurdodau lleol wedi defnyddio'r gwerthusiad o'r prosiectau peilot addysg drochi a dysgu iaith drwy ddulliau dwys (Llywodraeth Cymru 2008) wrth gynllunio eu darpariaeth – er dylid nodi na ofynnwyd am hyn mewn cwestiwn uniongyrchol yn y cyfweliadau gydag awdurdodau lleol. Cynigiodd rhai cyfranogwyr sylwadau am ddiffyg tystiolaeth ymchwil i gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio eu darpariaeth. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd mae'n ymddangos mai'r flaenoriaeth i awdurdodau lleol yw i gynllunio a chyflwyno darpariaeth sydd yn diwallu anghenion lleol. Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu'r angen i roi ystyriaeth i'r meysydd canlynol: ehangu'r sail tystiolaeth ac ymchwil ar addysg drochi hwyr yn y Gymraeg; hwyluso mynediad at y dystiolaeth ac annog awdurdodau lleol i'w defnyddio; a dangos dealltwriaeth o anghenion lleol – ar y cyd â'r dystiolaeth - wrth ddatblygu'r ddarpariaeth at y dyfodol.

**Ystyriaethau at y dyfodol:**

- **Dylid rhoi sylw i'r angen am fwy o ymchwil a thystiolaeth fel sail ar gyfer llunio polisi ym maes addysg drochi hwyr yn y Gymraeg.**
- **Dylid ystyried yn ogystal ddulliau o sicrhau bod consortia addysg rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn defnyddio ymchwil a thystiolaeth wrth gynllunio darpariaeth newydd, ac i fireinio a datblygu ymhellach y ddarpariaeth addysg drochi hwyr sydd yn bodoli eisoes.**
- **Dylid cofio y gallai darpariaeth effeithiol edrych yn wahanol mewn mannau gwahanol o Gymru. Wrth gynllunio'r ddarpariaeth, ac wrth werthuso ei heffeithiolrwydd, dylai anghenion ac amgylchiadau lleol fod yn ystyriaeth ganolog.**

**Llyfryddiaeth**

Carr, W. (2000). 'Partisanship in Educational Research', *Oxford Review of Education*, 26 (3-4): 437- 449.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2001). *Addysg drochi a dysgu iaith drwy ddulliau dwys: Adroddiad ar ymweliad â Newfoundland a Labrador a New Brunswick gan Jane Davidson AC Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*.

Estyn. (2006). *Adroddiad ar brosiectau peilot addysg drochi Cymraeg a dysgu iaith trwy ddulliau dwys mewn ysgolion*.

Estyn. (2021). Caffael yr iaith Gymraeg.

Holmes, A.G.D. (2020). 'Researcher Positionality - A Consideration of Its Influence and Place in Qualitative Research - A New Researcher Guide', *Shanlax International Journal of Education*, 8 (4): 1-10.

Hwb. (2020). Cwricwlwm i Gymru.

Lewis, W. G. (2011). Addysg ddwyieithog yn yr unfed ganrif ar hugain: Adolygu'r cyd-destun rhyngwladol, *Gwerddon* (7): 66-88.

Llywodraeth Cymru. (2008). Gwerthuso'r prosiectau i dreialu'r broses o ddysgu iaith trwy drochi ac addysgu dwys: Adroddiad gwerthuso terfynol.

Llywodraeth Cymru. (2011). Arolwg o'r Gwasanaeth Cymorth Iaith Gymraeg i Ysgolion.

Llywodraeth Cymru. (2017). Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

Llywodraeth Cymru. (2019). Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019

Llywodraeth Cymru. (2020). Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein cenedl: diweddariad Hydref 2020

Sefydliad Materion Cymreig. (2008). Creu Cymru Ddwyieithog - Rôl y Gymraeg mewn Addysg

Williams, Cen (2002). *Ennill Iaith: Astudiaeth o Sefyllfa Drochi yn 11-16 oed*, Trafodion Addysg, Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru Bangor.

Williams, Cen (2008). Trochi Ieithyddol Cyfnod Canolig a Hwyr: Modelau Sefydledig a'r Rhai sy'n ymddangos yng Nghymru, yn Sefydliad Materion Cymreig, tt. 17-29.

**Atodiad A – Canllaw holi swyddogion polisi Llywodraeth Cymru**

Lluniwyd canllawiau holi ar gyfer y swyddogion a gyfwelwyd yn Llywodraeth Cymru i adlewyrchu gwahanol swyddogaethau'r swyddogion. Roedd y cyfweliadau yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Gwybodaeth gyffredinol am y cyfranogwr a'u rôl mewn perthynas â datblygu addysg drochi hwyr;
- Datblygu'r CSCAau a chydweithio gydag awdurdodau lleol;
- Gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu'r ddarpariaeth drochi hwyr.

**Atodiad B – Canllaw holi swyddogion awdurdodau lleol**

Ym mhob cyfweliad gyda swyddogion allanol i Lywodraeth Cymru, trafodwyd y canlynol ar ddechrau'r cyfweliad:

- Pennu iaith y cyfweliad;
- Cyflwyno ymchwilydd, trosolwg o'i rôl;
- Amcanion a natur yr ymchwil;
- Ailadrodd telerau eu cyfranogiad a sicrhau eu bod wedi darllen yr hysbysiad preifatrwydd;
- Nodi y cânt gyfle i ofyn am yr ymchwil ar ddiwedd y cyfweliad;
- Rhoi gwybod iddynt os bydd cwestiwn yn codi nad ydynt yn gallu ei ateb yn llawn neu o gwbl, bod hynny'n iawn (caiff y cwestiynau eu teilwra ar gyfer pob cyfranogwr unigol).

**[ADRAN 1 – Gwybodaeth gyffredinol am y cyfranogwr]**

1a Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n gweithio?

1b Beth ydy eich rôl yno?

Beth ydy'r prif gyfrifoldebau sydd ynghlwm efo'r rôl?

**[ADRAN 2 – Disgrifiad o'r ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid (modelau, niferoedd, cyllid a thrafnidiaeth]**

2a Ydych chi'n gallu egluro beth ydy'r ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid yn eich awdurdod lleol chi? (os nad oes darpariaeth yn yr ALl, neidio i Adran 6)

Ydy'r ddarpariaeth yn bodoli mewn canolfan ddynodedig neu o fewn ysgol gynradd/uwchradd leol, neu ryw drefniant arall?

2b Beth ydy oedran/cyfnod allweddol y disgyblion yn y ddarpariaeth sydd gennych chi?

Oes unrhyw reswm pam eich bod yn cynnig y ddarpariaeth ar gyfer yr oedran hwn?

2c Beth ydy'r model(au) rydych yn ei ddefnyddio / eu defnyddio ar gyfer y ddarpariaeth a gynigir?

Llawn amser neu ran amser? (h.y. sawl diwrnod yr wythnos ac am ba hyd?)

Pam wnaethoch chi ddewis y model hwn?

Wnaethoch chi ystyried modelau gwahanol?

Beth ydy manteision ac anfanteision eich model chi o ddarpariaeth yn eich barn chi?

Oes unrhyw beth y byddech chi'n ei newid?

Beth? Pam?

Oes unrhyw beth sydd angen ei wella o ran y model?

Sut? Sut byddai hynny'n ei wella?

2ch Tua faint o ddisgyblion mae'r ddarpariaeth yn gallu eu derbyn?

Sut 'dych chi'n pennu capasiti?

Ydych chi wedi sylwi bod y niferoedd wedi codi neu gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf? Pam, ydych chi'n tybio?

Ydych chi erioed wedi cael unrhyw anawsterau o ran y niferoedd (gormod neu dim digon)?

Sut gwnaethoch ddod dros yr anawsterau hynny?

2d Sut mae'r ddarpariaeth yn cael ei chyllido?

2dd Ydy'r awdurdod lleol yn darparu trafnidiaeth i'r disgyblion sy'n mynychu darpariaeth addysg drochi hwyr?

O'r rhai sydd yn mynd i'r ganolfan etc. faint sydd yn defnyddio'r drafnidiaeth a ddarperir, a faint sydd yn defnyddio trefniadau eu hunain?

Ydyn nhw'n teithio'n bell?

Ydych chi wedi clywed am unrhyw ddisgyblion yn profi trafferthion wrth gael mynediad at yr addysg drochi neu'r drafnidiaeth?

**[ADRAN 3 – Prosesau mynediad a chynllunio'r ddarpariaeth]**

3a Gan ddechrau o ddechrau'r broses; beth sy'n digwydd pan mae plentyn yn cyrraedd ysgol / ysgol cyfrwng Cymraeg yn eich awdurdod lleol chi am y tro cyntaf ar ôl y dosbarth derbyn?

Pwy sydd yn dechrau'r drafodaeth ynghylch y posibilrwydd o gynnig darpariaeth addysg drochi hwyr i ddisgybl?

Beth yw rôl rhieni yn y broses hon?

Sut mae rhieni yn cael gwybod bod y ddarpariaeth ar gael?

[yn yr achosion hynny lle mae dewis yn bodoli rhwng addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth arall]:

Yn eich profiad chi, beth sydd yn peri i rieni wneud cais i'w plentyn dderbyn eu haddysg drwy gyfwng y Gymraeg (ar ôl y dosbarth derbyn)?

3b Sut ydych chi'n mesur y galw am ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid yn eich awdurdod lleol?

Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am y niferoedd sydd angen / yn gwneud cais am le, ac am yr ardal / dalgylch lle mae'r galw?

Oes unrhyw newidiadau wedi bod i'r galw dros y blynyddoedd diwethaf? Mwy neu llai o alw am ddarpariaeth? Pam, yn eich barn chi?

**[ADRAN 4 – Ymarferwyr a staffio]**

4a Faint o ymarferwyr sydd yn gweithio i ddarparu'r addysg drochi hwyr yn yr awdurdod?

4b Sut mae'r ymarferwyr hyn yn cael eu penodi / eu recriwtio?

Pa sgiliau a pha fath o brofiad dych chi'n chwilio amdanynt wrth benodi?

4c Beth yw proffil profiad a sgiliau y staff sydd yn gyfrifol am y ddarpariaeth?

Ydyn nhw'n derbyn unrhyw hyfforddiant penodol i gyflawni eu rôl? Pwy sydd yn darparu'r hyfforddiant?

**[ADRAN 5 – Mesur cynnydd dysgwyr, ac ôl-ofal]**

5a Pa ddulliau a pha fath o dystiolaeth a ddefnyddir i fesur cynnydd disgyblion yn ystod eu cyfnod yn y ganolfan / uned / dosbarth trochi hwyr?

Cynnydd ieithyddol a chynnydd addysgol?

5b Sut mae cynnydd yn cael ei gofnodi ar ddiwedd eu cyfnod yn y ganolfan / uned / dosbarth?

5c Beth sydd yn digwydd i'r wybodaeth hon ar ddiwedd y cyfnod hwn?

5ch Unwaith bod y disgybl wedi gadael y ganolfan / uned / dosbarth trochi hwyr ac wedi mynd yn ôl i'w hysgol, oes na unrhyw drefniadau mewn lle i'w cefnogi?

Cynllun ôl-ofal neu debyg?

Beth ydy cynnwys y ddarpariaeth yma?

Am faint mae'n para?

**[ADRAN 6 – Cynllunio cynnwys y ddarpariaeth]**

6a Sut aethoch ati / sut 'dych chi'n mynd ati i gynllunio pa fath o ddarpariaeth sydd/oedd ei hangen ar hwyrddyfodiaid yn eich awdurdod chi?

6b Pa fath o dystiolaeth 'dych chi'n ei defnyddio er mwyn cynllunio darpariaeth briodol?

Ydych chi'n darllen adroddiadau neu werthusiadau gan Llywodraeth Cymru neu Estyn? Pa rai? Pa ddogfennau eraill?

6c I ba raddau ydych chi'n cydweithio gydag eraill ar y gwaith cynllunio?

Awdurdodau lleol?

Llywodraeth Cymru?

Fforymau addysg neu iaith?

Consortia addysg rhanbarthol?

Ysgolion ac athrawon?

Rhieni?

Trigolion lleol? / Y gymuned leol?

6ch Sut ydych chi'n gwybod a yw'r ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid yn gweithio?

Pa ddata a thystiolaeth dych chi'n eu defnyddio ar gyfer hyn?

I ba raddau dych chi'n gweld fod raid i chi addasu'r ddarpariaeth yn ddibynnol ar anghenion disgyblion?

Sut ydych chi'n cynllunio ar gyfer unrhyw addasiadau?

6d Wrth feddwl am yr agweddau yn ymwneud yn benodol â chynllunio'r ddarpariaeth beth yn eich barn chi yw'r cyfleoedd sydd ynghlwm efo'r broses cynllunio ar gyfer darpariaeth i hwyrddyfodiaid? Hynny yw, Yn eich barn chi, oes unrhyw beth sydd yn gweithio'n dda o ran y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid yn eich awdurdod?

6dd Beth yn eich barn chi yw’r heriau?

Sut ydych wedi ymateb i’r heriau hyn?

**[ADRAN 7 – Darpariaeth yng nghyd-destun y pandemig]**

7a Beth sydd wedi digwydd i’r disgyblion oedd yn mynychu darpariaeth i hwyrddyfodiaid cyn hynny, ers y cyfnod clo?

Ydy’r ddarpariaeth ar gael iddynt o hyd?

Sut? Wyneb-i-wyneb neu ar-lein?

7b Ydy COVID-19 wedi gwneud i chi feddwl yn wahanol am y ddarpariaeth drochi hwyr?

**[ADRAN 8 – Profiadau cyffredinol o reoli’r ddarpariaeth]**

8a Beth ydych chi wedi ei ddysgu ers dechrau cynnig y ddarpariaeth yn yr awdurdod lleol?

8a Pa gyngor fyddech chi’n ei roi i awdurdod lleol sy’n dechrau paratoi i gyflwyno darpariaeth addysg drochi i hwyrddyfodiaid?

**[ADRAN 9 – Cwestiynau]**

9a Oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud cyn cloi?

9b Oes unrhyw gwestiynau gennych chi am yr ymchwil hwn?

Diolch am roi o’ch amser.

## Atodiad C – Canllaw holi swyddogion consortia addysg rhanbarthol

Yn Atodiad B nodir y materion a drafodwyd ar ddechrau'r cyfweliad gyda swyddogion y consortia addysg rhanbarthol.

**[ADRAN 1 – Gwybodaeth gyffredinol am y cyfranogwr]**

1a Ym mha gonsortiwm addysg rhanbarthol ydych chi'n gweithio?

1b Beth ydy eich rôl yno?

Beth ydy'r prif gyfrifoldebau sydd ynghlwm efo'r rôl?

**[ADRAN 2 – y consortia a'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr]**

2a Beth ydy cynnwys y ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn y rhanbarth?

2b Ym mha gyd-destunau mae addysg drochi hwyr yn cael ei thrafod yn y consortiwm?

Ym mha bolisïau / cynlluniau strategol mae'r ddarpariaeth yn cael ei thrafod?

Pa fforymau / pwyllgorau?

Pa swyddogion ar lefel consortiwm sydd yn ymwneud â'r elfennau hyn?

2c Beth ydy swyddogaeth y consortiwm o ran datblygu neu gynllunio darpariaeth i hwyrddyfodiaid mewn ALlau gwahanol?

Beth ydy swyddogaeth y consortiwm wrth benderfynu ar fodel benodol o ddarpariaeth?

Ydy'r consortiwm yn cynnig cefnogaeth neu gyngor i ysgolion/siroedd o ran y ddarpariaeth? Allech chi ddisgrifio sut mae hyn yn digwydd?

Beth yw'r ffynonellau a'r dystiolaeth rydych yn eu defnyddio ar gyfer rhoi'r gefnogaeth/cyngor hwnnw?

I ba raddau mae'r gwaith hwnnw ynghlwm â'r CSCA?

2ch O edrych ar yr awdurdodau lleol o fewn eich rhanbarth, beth sydd wedi bod dan drafodaeth yn y gorffennol a beth sy'n cael ei drafod a'i ddatblygu ar hyn o bryd o ran y ddarpariaeth drochi hwyr?

Beth ydy'r prif themâu sydd wedi codi?

Beth ydy'r heriau a'r cyfleoedd sydd wedi codi yn sgil y trafodaethau hyn?

2d A oes gan y consortiwm swyddogaeth o ran dyrannu cyllid ar gyfer darpariaeth addysg drochi hwyr?

Allwch chi ddisgrifio'r broses hon?

2dd Ydy'r consortiwm yn derbyn unrhyw wybodaeth ynghylch y ddarpariaeth drochi hwyr yn y rhanbarth gan yr Awdurdodau Lleol?

Pa fath o wybodaeth?

A ddaw diweddariadau am newidiadau neu addasiadau i'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr gan awdurdodau lleol? Pa mor aml? Ym mha ffurf?

2e Ydy'r consortiwm yn rhan o'r gwaith paratoi adnoddau neu ddatblygu dulliau addysgu ar gyfer darpariaeth addysg drochi hwyr?

2f Ydy'r consortiwm yn casglu unrhyw ddata / tystiolaeth am addysg drochi hwyr yn y rhanbarth?

Ar beth?

Beth sydd yn digwydd i'r data / tystiolaeth yma?

2ff Ydych chi ar lefel consortiwm yn ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth addysg drochi hwyr?

Beth yw rôl y consortiwm yn hyn o beth?

Pa fath o wybodaeth a thystiolaeth dych chi'n ei defnyddio i ddod i gasgliadau ynghylch pa mor effeithiol ydy'r ddarpariaeth?

2g Oes gan y consortiwm rôl o ran hyfforddiant i ymarferwyr sydd yn cyflwyno'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr?

Sut mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei drefnu?

Pwy sy'n darparu'r hyfforddiant?

**[ADRAN 3 – Perthnasau]**

3a Beth ydy perthynas awdurdodau lleol efo'i gilydd o fewn eich consortia addysg rhanbarthol yng nghyd-destun y ddarpariaeth addysg drochi hwyr?

Beth sy'n cael ei drafod yn y cyswllt yma?

Beth ydy natur y ddeialog yma?

3b Beth ydy perthynas y consortiwm efo consortia addysg rhanbarthol eraill yng nghyd-destun y ddarpariaeth addysg drochi hwyr?

Beth sy’n cael ei drafod yn y cyswllt yma?

Beth ydy natur y ddeialog yma?

3c Beth ydy perthynas y consortiwm efo LIC yng nghyd-destun y ddarpariaeth addysg drochi hwyr?

Beth sy’n cael ei drafod yn y cyswllt yma?

Beth ydy natur y ddeialog yma?

**[ADRAN 4 – Rôl ehangach y consortiwm o ran darpariaeth i hwyrddyfodiaid]**

4a Ar wahân i’r meysydd dyn ni wedi eu trafod eisoes, ydy’r consortiwm yn rhan o unrhyw waith ehangach sydd yn cynnwys y maes addysg drochi hwyr?

**[ADRAN 5 – Cwestiynau]**

5a Oes unrhyw beth ychwanegol rydych chi am ei ddweud am eich swyddogaeth, o ran y ddarpariaeth addysg drochi i hwyrddyfodiaid?

5b Oes unrhyw gwestiynau gennych chi am yr ymchwil hwn?

Diolch am roi o’ch amser.

**Atodiad Ch – Canllaw holi cynrychiolydd Estyn**

Yn Atodiad B nodir y materion a drafodwyd ar ddechrau'r cyfweliad gyda chynrychiolydd Estyn.

**[ADRAN 1 – Gwybodaeth gyffredinol am y cyfranogwr]**

1a Beth ydy eich rôl yn Estyn?

Beth ydy'r prif gyfrifoldebau sydd ynghlwm efo'r rôl?

**[ADRAN 2 – Estyn ac arolygu'r ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid]**

2a Sut mae'r ddarpariaeth yn cael ei hystyried o fewn y fframwaith arolygu?

2b Ydy Estyn yn arolygu canolfannau / unedau i hwyrddyfodiaid yn debyg i'r ffordd y caiff ysgolion eu harolygu?

Os ddim, pam fod hynny'n wahanol?

2c Wrth i chi arolygu ysgolion (cyfrwng Cymraeg) ydych chi'n rhoi sylw penodol i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi bod mewn canolfan neu uned i hwyrddyfodiaid?

Os felly, beth yw'r agweddau rydych yn rhoi sylw iddynt?

2ch Oes na unrhyw beth rydych yn gallu ei ddweud ynghylch y prosesau mae ysgolion a siroedd yn eu defnyddio i gynllunio'r ddarpariaeth?

2d Oes na unrhyw beth rydych yn gallu ei ddweud ynghylch cynnwys ac ansawdd y ddarpariaeth rydych yn ei gweld?

2dd Faint o sylw mae rhaglenni neu gyrsiau trochi o fewn yr ysgol yn eu cael yn yr adroddiadau terfynol fel arfer?

**[ADRAN 3 – Cefnogaeth a chyngor i ysgolion]**

3a Ar wahân i'r broses arolygu, ydy Estyn yn cynnig cefnogaeth neu gyngor i ysgolion / siroedd o ran darpariaeth i hwyrddyfodiaid?

Sut mae hyn yn digwydd?

Beth yw'r ffynonellau a'r dystiolaeth rydych yn eu defnyddio ar gyfer hyn?

**[ADRAN 4 – Rôl ehangach Estyn o ran darpariaeth i hwyrddyfodiaid]**

4a Ar wahân i'r meysydd dyn ni wedi eu trafod eisoes,  ydy Estyn yn rhan o unrhyw waith ehangach sydd yn cynnwys y maes addysg drochi hwyr?

**[ADRAN 5 – Cwestiynau]**

5a Oes unrhyw beth ychwanegol rydych chi am ei ddweud am eich swyddogaeth, neu swyddogaeth Estyn, o ran darpariaeth addysg drochi i hwyrddyfodiaid?

5b Oes unrhyw gwestiynau gennych chi am yr ymchwil hwn?

Diolch am roi o'ch amser.